




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 1



Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 1

Cynulleidfa	Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio'n benodol ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio Lles (mae'r grŵp yn cynnwys y Gweinidog Addysg a Sgiliau; y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau; y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth; y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol) a swyddogion polisi perthnasol.
Trosolwg	Nod yr adroddiad hwn, a luniwyd gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (Llywodraeth Cymru), yw dadansoddi'r dystiolaeth gyfredol ar effaith gronnus bosibl diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar unigolion ac aelwydydd yng Nghymru.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Os oes unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon dylid cysylltu â: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 6160 Ffacs: 029 2082 5350 e-bost: welfarereform@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Gellir darllen y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol	4
Dadansoddiad Cam 1	9
1. Crynodeb o ddatganiadau y polisi diwygio lles	9
2. Amcangyfrif o'r nifer o unigolion yng Nghymru y bydd y diwygiadau lles yn effeithio arnynt	9
3. Effaith ariannol gronnol ddisgwyliedig y diwygiadau lles	14
4. Effaith ar dlodi	29
5. Effeithiau economaidd ehangach	31
6. Effeithiau cymdeithasol ehangach	33
Y camau nesaf	35
Cyfeiriadau	36
Atodiad 1: Rhaglen waith i ddadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru	38
Nodau	38
Dull gweithredu	38
Cam 1	38
Cam 2	39
Cam 3	40
Atodiad 2: Crynodeb o ddatganiadau y polisi diwygio lles	41

Cyflwyniad

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio Lles wedi comisiynu rhaglen waith i asesu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn amlinellu canfyddiadau allweddol Cam 1 y rhaglen waith hon. Prif nod y dadansoddiad cynnar hwn fu dadansoddi'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes ar effaith gronnol eang y diwygiadau lles ar unigolion ac aelwydydd yng Nghymru. I raddau helaeth, mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS), sydd wedi asesu effaith gyfunol y newidiadau treth a budd-dal a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Hyd y gwyddom, prin iawn yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am effaith gronnol y newidiadau budd-dal ar eu pennau eu hunain, ac yn arbennig ar lefel Cymru. Fodd bynnag, caiff hyn ei ystyried fel rhan o Gam 2.

Mae'r dadansoddiad hyd yn hyn yn cynnwys:

1. Crynodeb o brif ddatganiadau y polisi diwygio lles (**Atodiad 2**).
2. Amcangyfrif o'r nifer o unigolion y bydd y diwygiadau yn effeithio arnynt yng Nghymru.
3. Asesiad o'r effaith ariannol ddisgwyliedig:
 - a) cymhariaeth o'r effaith amcangyfrifedig yng Nghymru o gymharu â'r DU yn gyffredinol a gwledydd a rhanbarthau eraill y DU
 - b) asesiad o'r effeithiau gofodol tebygol yng Nghymru
 - c) dadansoddiad o effeithiau'r prif ddiwygiadau yn ôl nodweddion yr unigolyn a/neu'r aelwyd yng Nghymru (gan gynnwys grŵp incwm, teuluoedd â phlant, rhieni unigol, oedolion o oedran gweithio heb blant, pensiynwyr ac aelwydydd heb waith)
 - d) dadansoddiad o'r effeithiau ar gymhellion i weithio.
4. Asesiad o'r effaith ar dlodi, gan gynnwys tlodi plant.
5. Dadansoddiad o'r effeithiau economaidd ehangach.
6. Asesiad o'r effeithiau cymdeithasol ehangach, megis yr effaith bosibl ar droseddau ac iechyd yng Nghymru.

Cynhaliwyd asesiad cychwynnol mewnol o'r effeithiau gweinyddol y mae'r diwygiadau lles yn debygol o'u cael ar asiantau cyflenwi yng Nghymru hefyd. Amlygodd yr asesiad hwn nifer o broblemau cyflenwi posibl. Byddwn yn parhau i fonitro'r problemau hyn wrth i fanylion pellach ddod i law ar y broses o roi newidiadau'r Bil Diwygio Lles ar waith.

Ceir amlinelliad o'r rhaglen waith lawn yn **Atodiad 1**.

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

- Fel y gwelir yn Nhabl 1, **mae Cymru yn fwy dibynnol ar fudd-daliadau lles na Phrydain Fawr yn gyffredinol.** Yn ôl yr ystadegau diweddaraf (ar gyfer mis Mai 2011), roedd 18.4 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru yn hawlio budd-daliadau lles o'i gymharu â chyfartaledd o 14.5 y cant ar gyfer Prydain Fawr. Gellir priodoli'r gyfradd uwch o bobl sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru yn bennaf i'r gyfran uchel o bobl sy'n hawlio budd-daliadau anabled a salwch.

Tabl 1: Hawlwyr budd-dal (16–64 oed) fesul grŵp ystadegol, Mai 2011

Grŵp ystadegol*	Prydain Fawr		Lloegr		Yr Alban		Cymru	
	Nifer	Cyfradd	Nifer	Cyfradd	Nifer	Cyfradd	Nifer	Cyfradd
Ceisiwr gwaith	1,403,910	3.6	1,197,090	3.5	136,490	4.0	70,330	3.7
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a budd-daliadau analluogrwydd	2,560,470	6.5	2,104,450	6.2	276,900	8.1	179,130	9.4
Rhieni unigol	595,370	1.5	516,860	1.5	47,770	1.4	30,740	1.6
Gofalwr	455,830	1.2	385,940	1.1	40,700	1.2	29,180	1.5
Eraill ar fudd-dal sy'n gysylltiedig ag incwm	187,160	0.5	160,450	0.5	16,800	0.5	9,910	0.5
Anabl	410,500	1.0	345,220	1.0	39,430	1.1	25,860	1.4
Mewn profedigaeth	80,410	0.2	67,960	0.2	8,290	0.2	4,150	0.2
Cyfanswm	5,693,650	14.5	4,777,970	14.1	566,380	16.5	349,290	18.4

* Mae grŵp ystadegol yn amrywyn hierarchaeth sy'n dyrannu pobl i'r prif fudd-dal maent yn ei hawlio. Ffynhonnell: Ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Nomis

- Roedd Cyllideb Mehefin 2010 ac Adolygiad o Wariant 2010 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Glymblaid y DU yn cynnwys amrywiol newidiadau i'r system budd-daliadau, yr amcangyfrifwyd y byddent yn arbed dros £18 miliwn erbyn 2014–15. Bydd y cyfraniad mwyaf o bell ffordd (£6 biliwn) i'r arbedion hyn yn deillio o fynegeio fwy neu lai pob budd-dal i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach nag i'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Cyhoeddwyd newidiadau lles pellach yng Nghyllideb 2011 a Datganiad Hydref 2011. Mae'r newidiadau hyn yn cyfateb i gyfanswm o tua £1.3 biliwn o arbedion erbyn 2014–15 (gweler Tabl 2 ar dudalen 5 ac **Atodiad 2** am ragor o fanylion).

Tabl 2: Crynodeb o'r penderfyniadau polisi lles a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Mehefin 2010, Adolygiad o Wariant 2010, Cyllideb 2011, a Datganiad Hydref 2011 (£ miliwn)

	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
Cyllideb Mehefin 2010	2,010	4,710	8,150	11,040
Adolygiad o Wariant 2010	320	2,555	5,990	7,040
Cyllideb 2011	30	-70	-50	-35
Datganiad Hydref 2011	0	1,240	1,245	1,295

- Yn y pen draw, bydd effaith y diwygiadau lles yn dibynnu i raddau helaeth ar **ba mor gadarn yw'r economi ehangach ac i ba raddau y bydd pobl yn newid eu hymddygiad fel ymateb i dorri budd-daliadau**. Er mai dadansoddiad statig ar y cyfan a geir ar hyn o bryd, gan nad yw'n ceisio amcangyfrif beth fydd yr ymateb ymddygiadol tebygol, mae'n cynnig man cychwyn defnyddiol.
- Cafodd Cam 1 o'r dadansoddiad ei seilio i raddau helaeth ar dystiolaeth sy'n bodoli eisoes a gyhoeddwyd gan yr IFS, sydd wedi asesu **yr effaith a gaiff y newidiadau i drethi a'r newidiadau i fudd-daliadau gyda'i gilydd** a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth Glymblaid. Hyd y gwyddom, tystiolaeth gyfyngedig iawn a geir ar hyn o bryd o effaith gynyddol y newidiadau i fudd-daliadau ar eu pennau eu hunain, ac yn enwedig ar lefel Cymru. Fodd bynnag, caiff hynny ei ystyried yn ystod Cam 2. Rydym yn rhag-weld ar hyn o bryd y daw Cam 2 i ben tua diwedd 2012.
- Mae'r dadansoddiad a gynhaliwyd gan yr IFS yn dilyn Adolygiad o Wariant 2010 yn amcangyfrif, yn sgil y newidiadau i drethi ac i fudd-daliadau sydd i'w rhoi ar waith erbyn 2014-15, **y gall aelwydydd yng Nghymru ddisgwyl colli 4.1 y cant o'u hincwm ar gyfartaledd (neu £1,110 y flwyddyn)**. Mae hyn yn cymharu â cholled gyfartalog o 3.8 y cant ar gyfer y DU (neu £1,170 y flwyddyn). Y gwahaniaethau rhwng nodweddion aelwydydd sy'n gyfrifol am y ffaith bod effaith y diwygiadau i drethi ac i fudd-daliadau yn amrywio ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

- O'r 12 o ranbarthau'r DU ac o wledydd y DU a gafodd eu dadansoddi gan yr IFS, disgwylir i aelwydydd yng Nghymru fod yn **bumed o ran y golled gyfartalog fwyaf mewn arian parod**, ond mae hyn yn llai na'r golled gyfartalog mewn arian parod ar gyfer y DU yn gyffredinol. Mae hyn oherwydd bod rhai colledion sylweddol mewn arian parod sy'n wynebu'r aelwydydd cyfoethocaf un, a chyfran anghymesur o'r aelwydydd hynny yn Llundain (ac mae'r newidiadau a rag-gyhoeddwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU yn effeithio'n benodol arnynt), yn gwrthio ffigur y golled gyfartalog mewn arian parod ar gyfer y DU yn gyffredinol i fyny. Er hynny, amcangyfrifir bod y golled gyfartalog fel canran o incwm yn fwy yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol. Gellir priodoli hynny i'r ffaith bod yr incwm cyfartalog yn is yng Nghymru nag yng ngweddill y DU.
- Mae'r IFS yn nodi bydd y newidiadau i drethi ac i fudd-daliadau sydd i'w rhoi ar waith yn ystod y blynyddoedd nesaf, ar lefel y DU, yn cael effaith fwy ar grwpiau incwm is (h.y. byddant yn cymryd mwy o gyfran o grwpiau incwm isel nag o grwpiau incwm uwch, ar wahân i'r grŵp incwm cyfoethocaf un), ac maent yn debygol o fod yn **fwy atchwelol byth yng Nghymru**.
- O edrych ar y gyfran o'r boblogaeth sy'n hawlio budd-daliadau allan o waith ynghyd â dosbarthiad yr aelwydydd incwm isel yng Nghymru, awgrymir bod **Cymoedd De Cymru ac ardaloedd canol dinas Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe yn fwy tebygol o ddioddef effaith anghymesur oherwydd y newidiadau i fudd-daliadau**.
- Ceir amcangyfrif yn nadansoddiad yr IFS, yr ychwanegwyd ato yn ddiweddar (ac sy'n cynnwys mesurau a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref 2011), o effaith y diwygiadau treth a budd-daliadau ar wahanol fathau o aelwydydd (ar lefel y DU). **Disgwylir i deuluoedd sydd â phlant golli mwy o gyfran o'u hincwm** ar draws y dosbarthiad incwm o'u cymharu ag aelwydydd pensiynwyr ac aelwydydd o oedran gweithio sydd heb blant. At hynny, **amcangyfrifir mai'r aelwydydd tlota sydd â phlant fydd yn colli'r gyfran fwyaf o'u hincwm** yn sgil y newidiadau i drethi ac i fudd-daliadau. Yn benodol, disgwylir i **rieni unigol nad ydynt yn gweithio a chyplau di-waith sydd â phlant** gael ergyd ariannol anghymesur. **Bydd effaith fawr hefyd ar deuluoedd sydd â phlant o dan bum mlwydd oed a theuluoedd sydd â mwy na dau o blant** hefyd.

- Mae'r IFS wedi dadansoddi hefyd effaith y diwygiadau i drethi ac i fudd-daliadau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth Glymblaid ar dlodi hyd at haf 2011. Yn ôl y dadansoddiad hwnnw, mae'n ymddangos bydd y diwygiadau yn peri i **lefelau tlodi godi'n fwy ymhlith teuluoedd sydd â phlant nag ymhlith oedolion o oedran gweithio sydd heb blant**. At hynny, fel y cyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref 2011, ni fydd y cynnydd uwch na chwyddiant i elfen y plentyn o'r Credyd Treth Plant yn cael ei gyflwyno, ac mae hynny'n fwy o newyddion drwg i deuluoedd yng Nghymru. Mae'r IFS a Thrysorlys Ei Mawrhydi, ill dau, yn amcangyfrif bydd cynnydd o tua 100,000 mewn achosion o dlodi plant yn y DU yn 2012–13. Yn ôl amcangyfrifon dros dro Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar gyfrannau cymesur a addaswyd i adlewyrchu'r gwahaniaeth o ran tlodi, gallai'r diwygiadau treth a budd-daliadau arwain at gynnydd o 6,000 yn yr achosion o dlodi plant yng Nghymru yn 2012–13.
- Mae dadansoddiad yr IFS o effaith y newidiadau i drethi ac i fudd-daliadau (gan gynnwys Credyd Cynhwysol) sydd i'w cyflwyno erbyn 2014 yn awgrymu, ar gyfartaledd, **y bydd cymhelliad cryfach i boblogaeth y DU yn gyffredinol i ymgymryd â gwaith am dâl**. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr effaith yn wahanol ar is-grwpiau o'r boblogaeth.
 - **Y rheini sydd heb blant**: ar gyfartaledd, disgwylir y bydd cymhellion cryfach i bobl sengl sydd heb blant a chyplau sydd heb blant i ymgymryd â gwaith am dâl.
 - **Y rheini sydd â phlant**: ar gyfartaledd, disgwylir i'r cymhellion ariannol i weithio fod yn llawer cryfach ar gyfer rhieni unigol, er bod disgwyl i'r cymhelliad i ymgymryd â gwaith am dâl fod ychydig yn llai yn achos cyplau sydd â phlant.
- Wrth asesu effaith bosibl y diwygiadau lles ar incwm a gwariant yng Nghymru, rhaid ystyried effeithiau lluosydd. Mae'n anodd mesur yr effeithiau hyn yn fanwl gywir. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu **am bob £1 o incwm a gollir, y gallai cyfanswm y golled incwm i Gymru fod tua £1.00–£1.50** (h.y. lluosydd rhwng 1.0–1.5). Dylid ystyried hyn fel rhagdybiaeth interim cyn i ddadansoddiad pellach gael ei gynnal yn ystod Cam 2. Mae'n bwysig nodi, os bydd pobl yn symud i mewn i waith, y bydd yr effeithiau lluosydd yn llai, ac y gallai'r effeithiau hynny fod yn gadarnhaol hyd yn oed.

- Ymddengys fod dadansoddiad cyfyngedig ei gwmpas wedi cael ei gynnal ar effeithiau cymdeithasol posibl y diwygiadau lles sydd i'w cyflwyno yn ystod y blynyddoedd nesaf. Er hynny, manteisiwyd ar nifer bach o astudiaethau sydd wedi edrych ar effaith diwygiadau lles y gorffennol ar droseddu (o gofio eu bod yn debyg yn gyffredinol i'r diwygiadau presennol). Mae'r rhain yn awgrymu y **gallai torri budd-daliadau a chyflwyno rheolau llymach o ran hawl i gael budd-daliadau wthio rhai unigolion allan o ddiweithdra ac i droseddu. Ceir rhywfaint o dystiolaeth hefyd gallai amseriad ac amllder y taliadau lles gael effaith ar lefelau troseddu.**
- Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi mewn amryw o asesiadau effaith y gallai'r polisïau lles **gael effaith gadarnhaol ar iechyd os byddant yn sicrhau bod mwy o bobl yn symud i mewn i waith.** Fel yn achos effeithiau economaidd ehangach, bydd yr effeithiau cymdeithasol hefyd yn ddibynnol iawn ar yr ymateb ymddygiadol ac ar yr amodau economaidd ehangach.

Dadansoddiad Cam 1

1. Crynodeb o ddatganiadau y polisi diwygio lles (gweler Atodiad 2)

2. Amcangyfrif o'r nifer o unigolion yng Nghymru y bydd y diwygiadau lles yn effeithio arnynt

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi penderfynu llunio asesiadau unigol o effaith ar gyfer y prif gynigion a nodir yn y Bil Diwygio Lles, yn hytrach nag un asesiad cyffredinol cronol o effaith. Hefyd, nid yw pob un o'r asesiadau o effaith yn cynnwys ffigurau ar gyfer Cymru. Felly, ar hyn o bryd, mae'n anodd amcangyfrif cyfanswm nifer y bobl y gallai fod effaith arnynt arnynt yng Nghymru. Fodd bynnag, er mwyn rhoi syniad o nifer y bobl yng Nghymru y gallai'r newidiadau lles effeithio arnynt o bosibl, mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r prif ystadegau lles. Yn ogystal, defnyddiwyd rhai o asesiadau effaith y DWP sy'n cynnwys ffigurau ar gyfer Cymru a phrosiectau ymchwil eraill sydd wedi asesu effeithiau posibl.

Mae'r ystadegau diweddaraf¹ yn dangos bod cyfran uwch o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru yn cael rhyw fath o fudd-dal lles o gymharu â Lloegr, yr Alban a'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr. Dengys Tabl 1 (tudalen 4) fod 18.4 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru yn hawlio budd-daliadau lles ym mis Mai 2011 (cyfartaledd Prydain Fawr oedd 14.5 y cant). Mae hyn yn cyfateb i tua 350,000 o hawlwr yng Nghymru. O'u plith, roedd tua 290,000 yn hawlio budd-daliadau allan o waith². O fewn y categori hwn, y grŵp mwyaf o hawlwr yw'r rheini sy'n cael **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) neu Fudd-dal Analluogrwydd (IB)** (yn aml wedi'u cyfuno â budd-daliadau eraill) gyda bron i 180,000 o bobl yng Nghymru yn hawlio'r budd-daliadau hyn fel eu prif fudd-dal, sy'n cyfateb i 9.4 y cant o'r boblogaeth 16–64 oed. Ym Mhrydain Fawr, y gyfran oedd 6.5 y cant.

Ym mis Hydref 2008, cyflwynwyd y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn lle Budd-dal Analluogrwydd a Chymorthdal Incwm a hawliwyd ar sail analluogrwydd i geiswyr newydd. Caiff unigolion sydd eisoes yn hawlio Budd-dal Analluogrwydd eu trosglwyddo i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth rhwng gwanwyn 2011 a gwanwyn 2014. Mae'r cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn cynnwys asesiad meddygol, sef Asesiad o'r Gallu i Weithio, sy'n categoreiddio ceisiadau i'r grŵp yn ffit i weithio (h.y. daw'r hawliad Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i ben ond

¹ Ar gyfer Mai 2011.

² Yn cynnwys Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd, budd-daliadau rhieni unigol a budd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig ag incwm.

³ Time Limiting Contributory element of ESA – Impact Assessment (DWP, 2011)

bydd tua 70 y cant yn symud i fudd-dal arall³), y grŵp cymorth (i'r rheini ag anableddau difrifol) a'r grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith (y gorchmynnir iddynt fynd ati i ddod o hyd i swydd gyda help a chymorth). Dengys ffigurau'r Asesiad o'r Gallu i Weithio ar gyfer ceisiadau newydd am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yng Nghymru rhwng mis Hydref 2008 a mis Chwefror 2011 fod 5 y cant wedi'u gosod yn y grŵp cymorth, bod 18 y cant wedi'u gosod yn y grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith a bod 39 y cant wedi'u pennu fel unigolion a oedd yn ffit i weithio⁴. Yn wahanol i Fudd-dal Analluogrwydd a oedd yn benagored, o fis Ebrill 2012, bydd Llywodraeth y DU yn gosod terfyn amser o flwyddyn ar y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol⁵ i'r rheini sy'n ymgymryd â gweithgaredd cysylltiedig â gwaith, gan eu hannog felly i ddychwelyd i'r gwaith. Bydd hawlwyd yn gallu cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm (na fydd terfyn amser arno) os byddant yn bodloni amodau hawl; fel arall byddant yn symud oddi ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn amcangyfrif na fydd gan tua 40 y cant o'r rheini sy'n gymwys ar gyfer y polisi terfyn amser (h.y. hyd hawliad Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o fwy na blwyddyn) hawl i gael y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth mwyach. Amcangyfrifir bod hyn yn cyfateb i tua 700,000 o bobl ym Mhrydain Fawr erbyn 2015/16. Gan dybio effaith sy'n gymesur â chyfanswm Prydain Fawr yn seiliedig ar lwyth achosion, gallwn ddisgwyl yr effeithir ar tua 7 y cant o'r cyfanswm hwn yng Nghymru⁶.

Ym mis Mai 2011, roedd 3.7 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio yn hawlio **Lwfans Ceisio Gwaith** yng Nghymru (tua 70,000 o hawlwyd Lwfans Ceisio Gwaith). Mae hyn ychydig yn uwch na chyfran Prydain Fawr, sef cyfradd nifer hawlwyd o 3.6 y cant (tua 1.4 miliwn o hawlwyd Lwfans Ceisio Gwaith). Mae'r data diweddaraf ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith ar gyfer mis Ionawr 2012 yn dangos yr un patrwm yn fras.

Mae Tabl 1 hefyd yn dangos mai gan Gymru y mae'r gyfran uchaf o hawlwyd budd-dal anabledd ym Mhrydain Fawr, sef 1.4 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio (tua 26,000 o hawlwyd anabl), o gymharu â chyfartaledd Prydain Fawr, sef 1.0 y cant (tua 400,000 o hawlwyd anabl). O ran unigolion sy'n cael **Lwfans Byw i'r Anabl**, mae gan Gymru y gyfran uchaf o unigolion sy'n hawlio'r budd-dal hwn ym Mhrydain Fawr. Ym mis Mai 2011, roedd 142,000 o unigolion o oedran gweithio yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl yng Nghymru, sy'n

⁴ ESA: Work Capability Assessment – Official Statistics for Wales, Hydref 2011 (Tabl 1) (DWP, 2011).

⁵ Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau yn gymwys i'r rheini sydd wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Bydd hawlwyd yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm os bydd eu hincwm a'u cynilion yn ddigon isel.

⁶ Cyfrifwyd gan ddefnyddio'r data llwyth achosion yn Nhabl 1 o'r adroddiad hwn.

cyfateb i 7.5 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio. O gymharu, roedd 2.028 miliwn o unigolion o oedran gweithio ym Mhrydain Fawr yn cael Lwfans Byw i'r Anabl, sy'n cyfateb i 5.2 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio. Yn wahanol i'r dadansoddiad blaenorol nodir bod hyn yn cynnwys pob un sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl, gan gynnwys y rheini sy'n hawlio budd-daliadau eraill.

Mae diwygiadau yn cael eu cyflwyno i'r Lwfans Byw i'r Anabl ar hyn o bryd. Mae effeithiau'r diwygiadau hyn yn debygol o fod yn ddwysach yng Nghymru nag ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol o ystyried y gyfran uwch o hawl wyr Lwfans Byw i'r Anabl. Fel rhan o'r diwygiadau, caiff y Lwfans Byw i'r Anabl ei ddisodli gan y Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP), sef budd-dal arian parod newydd i'w gyflwyno erbyn 2013/14. Disgwylir i'r broses ddiwygio hon (sy'n cynnwys prawf meddygol llymach) leihau nifer y bobl sy'n gymwys i gael Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Annibyniaeth Bersonol, gan dargedu'r rheini â'r angen mwyaf. Mae Cyllideb Mehefin 2010 yn amcangyfrif y bydd gostyngiad o 20 y cant o ran llwyth achosion a gwariant unwaith caiff proses ddiwygio'r Lwfans Byw i'r Anabl ei chyflwyno'n llawn (fodd bynnag, mae ansicrwydd o ran a gaiff y ffigur hwn ei wireddu). Mae LE Wales (2011) wedi cynnal gwaith modelu senario i asesu effaith newidiadau i daliadau Lwfans Byw i'r Anabl yng Nghymru. Ymhlith senarios eraill, caiff senario llinell sylfaen (sef bod budd-daliadau yn parhau fel y maent) ei gymharu â'r broses o ddiwygio'r Lwfans Byw i'r Anabl (fel y nodwyd yng Nghyllideb Mehefin 2010). Mae hyn yn rhag-weld na fyddai tua 30,000 o bobl o oedran gweithio sy'n byw yng Nghymru a fyddai wedi cael Lwfans Byw i'r Anabl o dan y senario llinell sylfaen yn cael budd-daliadau erbyn 2030. O gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen, rhagwelir y bydd gwariant Lwfans Byw i'r Anabl blyneddol ar unigolion o oedran gweithio tua £200 miliwn yn is yng Nghymru erbyn 2030⁷.

O gofio ffocws y diwygiadau lles ar symud unigolion sydd wedi bod yn hawlio budd-daliadau am gyfnod hir yn ôl i'r gwaith, mae'n ddefnyddiol ystyried hyd hawliadau budd-dal yng Nghymru. Dengys Tabl 3 fod gan Gymru gyfran sylweddol uwch o bobl a fu'n hawlio budd-daliadau lles am bum mlynedd neu fwy, sef 8.4 y cant, o gymharu â 5.8 y cant ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol. Caiff y grŵp hwn ei dargedu'n benodol gan y diwygiadau lles. Y prif reswm am y gwahaniaeth hwn yw bod gan Gymru gyfran uwch o bobl sydd wedi bod yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth/Budd-dal Analluogrwydd am fwy na phum mlynedd (6.1 y cant o gymharu â 4.1 y cant ar gyfer Prydain Fawr⁸).

⁷ *Impacts of DLA on working age people in Wales* (LE Wales, 2011). Mae LE Wales hefyd wedi cynnal gwaith ymchwil ar effaith debygol newidiadau i'r Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Gweini ar bobl hŷn (dros 65 oed) yng Nghymru.

⁸ Ffynhonnell: Ystadegau DWP, Nomis

Tabl 3: Hyd hawliadau budd-dal⁹, Mai 2011

Hyd	Prydain Fawr		Cymru	
	Nifer	Cyfradd	Nifer	Cyfradd
Hyd at 6 mis	1,322,910	3.4	70,300	3.7
6 mis hyd at flwyddyn	579,820	1.5	31,770	1.7
Blwyddyn a hyd at 2 flynedd	580,500	1.5	32,160	1.7
2 flynedd a hyd at 5 mlynedd	932,020	2.4	55,700	2.9
5 mlynedd a throsodd	2,278,390	5.8	159,360	8.4
Cyfanswm	5,693,650	14.5	349,290	18.4

Ffynhonnell: Ystadegau DWP, Nomis

Dengys Tabl 4 lwyth achosion **Budd-dal Tai** a **Budd-dal Treth Gyngor** ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol ac ar gyfer Cymru¹⁰. Ym mis Awst 2011, roedd cyfanswm o tua 245,000 o bobl yn hawlio Budd-dal Tai yng Nghymru (10.0 y cant o'r boblogaeth dros 16 oed), gyda thua 326,000 yn hawlio Budd-dal y Dreth Gyngor (13.3 y cant o'r boblogaeth dros 16 oed). Mae hyn yn cymharu â thua 4.9 miliwn yn cael Budd-dal Tai a 5.9 miliwn yn cael Budd-dal Treth Gyngor ym Mhrydain Fawr (10.0 y cant a 11.9 y cant o'r boblogaeth dros 16 oed yn eu trefn).

Tabl 4: Hawlwyr Budd-dal y Dreth Gyngor a Budd-dal Tai (poblogaeth dros 16 oed), Awst 2011

Budd-dal	Prydain Fawr		Cymru	
	Nifer	Cyfradd	Nifer	Cyfradd
Pawb sy'n cael Budd-dal Tai	4,909,510	10.0	244,900	10.0
Pawb sy'n cael Budd-dal Treth Gyngor	5,860,150	11.9	325,770	13.3

Ffynhonnell: Ystadegau DWP, Nomis

O fis Ebrill 2013, caiff Budd-dal y Dreth Gyngor a delir gan DWP ar hyn o bryd i awdurdodau lleol ei ddiddymu a bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am roi cynllun newydd ar waith. Yn Lloegr, caiff y cyfrifoldeb hwn ei drosglwyddo'n lleol – mae Llywodraeth y DU yn honni y bydd hyn yn rhoi mwy o reolaeth i awdurdodau lleol dros weinyddu'r budd-dal gan y bydd ganddynt fwy o hyblygrwydd i bennu eu meini prawf eu hunain ar gyfer taliadau. Nid oes cynllun newydd wedi'i gadarnhau yng Nghymru eto. Fel y cyhoeddwyd yn yr

⁹ Yn cynnwys yr amrywiaeth o fudd-daliadau a restrir yn Nhabl 1.

¹⁰ Nid yw'r data hwn ar fudd-daliadau wedi'i gynnwys yn Nhablau 1 a 3.

Adolygiad o Wariant, bydd lefelau ariannu Budd-dal y Dreth Gyngor 10 y cant yn is na'r swm a gaiff ei wario ar y budd-dal hwn ar hyn o bryd, gan arbed £0.5 biliwn y flwyddyn. Noda'r IFS fod hyn yn debygol o gael effaith ddifrifol ar yr aelwydydd tlotaf.

O ran Budd-dal Tai, caiff y budd-dal hwn ei ddiddymu ar ôl cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, a fydd yn cynnwys elfen tai. Cyn hyn, gwnaed newidiadau eisoes i'r system bresennol ac mae diwygiadau pellach yn yr arfaeth. Roedd y newidiadau a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2011 yn cynnwys:

- newid y sail ar gyfer pennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol o'r canolrif i'r ddegfed ganradd ar hugain o renti'r farchnad leol
- cyflwyno terfyn ar gyfraddau'r Lwfans Tai Lleol a delir mewn perthynas ag uchafswm o bedair ystafell wely (ni fydd y gyfradd ar gyfer pump ystafell wely ar gael mwyach)
- dileu'r ddarpariaeth i hawlwyd gadw uchafswm o £15 yr wythnos lle mae eu rhent islaw cyfradd y Lwfans Tai Lleol.

Mae DWP wedi amcangyfrif y bydd **48,530** o bobl sy'n cael Lwfans Tai Lleol¹¹ yng Nghymru yn colli arian o ganlyniad i'r newidiadau uchod a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2011¹². Mae hyn yn cyfateb i 99.6 y cant o'r holl unigolion sy'n cael Lwfans Tai Lleol. Amcangyfrifir mai'r golled wythnosol gyfartalog fydd **£9** yng Nghymru, o gymharu â **£12** ar gyfer y DU yn gyffredinol.

Mae newidiadau eraill sydd yn yr arfaeth yn cynnwys:

- codi'r terfyn oedran lle mae'r Gyfradd Llety a Rennir yn gymwys o 25 oed i 35 oed o fis Ionawr 2012. Mae DWP yn amcangyfrif y bydd hyn yn effeithio ar **3,080** o bobl yng Nghymru, gyda cholled wythnosol gyfartalog o **£24**¹³
- uwchraddio cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol i'r CPI o fis Ebrill 2013. Mae DWP yn amcangyfrif bydd **48,530** o unigolion sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru yn colli arian o ganlyniad. Ar gyfartaledd, amcangyfrifir colled o **£5.50** yn yr wythnos fesul unigolyn¹⁴

¹¹ Nid yw budd-dal pawb sy'n hawlio Budd-dal Tai yng Nghymru yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r Lwfans Tai Lleol. Mae'r Lwfans Tai Lleol yn gymwys i'r rheini sy'n byw yn y sector rhentu preifat ac i geisiadau newydd ar ôl mis Ebrill 2008.

¹² Impacts of Housing Benefit proposals: Changes to the Local Housing Allowance to be introduced in 2011–12 (DWP, 2010). Mae'r ffigurau yn asesiad o effaith Budd-dal Tai DWP yn debygol o fod yn rhy isel gan eu bod yn seiliedig ar ystadegau o fis Mawrth 2010.

¹³ Housing Benefit Equality Impact assessment (DWP, 2011)

¹⁴ Housing Benefit – Up-rating Local Housing Allowance Rates by CPI from April 2013 – Impact assessment (DWP, 2011).

- cyfyngu ar swm y Budd-dal Tai a delir i hawlwyrs sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n tanfeddiannu eu llety o fis Ebrill 2013. Mae DWP yn amcangyfrif bydd y mesur hwn yn effeithio ar **40,000** o hawlwyrs Budd-dal Tai o oedran gweithio sy'n byw yn y sector cymdeithasol yng Nghymru¹⁵. Mae hyn yn cyfateb i 42 y cant o'r hawlwyrs Budd-dal Tai yn y sector rhent cymdeithasol, sy'n gyfran uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr (32 y cant). Y rheswm am hyn yw bod mwy o achosion o danfeddiannu yng Nghymru. Mae DWP yn amcangyfrif bydd pob hawliwr yr effeithir arno yng Nghymru yn colli **£11** o Fudd-dal Tai bob wythnos (£13 ym Mhrydain Fawr) ar gyfartaledd.

Yn seiliedig ar asesiadau effaith DWP, bydd y newidiadau hyn i Fudd-dal Tai yn arwain at gyfanswm colled ar gyfartaledd o **£1,217,605 yr wythnos** yng Nghymru. Caiff y golled hon ei gwrthbwyso gan hawliadau byrdymor i daliadau tai yn ôl disgrisiwn. Fodd bynnag, nid yw'r golled gyfartalog hon yn cynnwys effaith pennu terfyn o £500 yr wythnos ar daliadau budd-dal i deuluoedd (£350 yr wythnos i bobl sengl heb blant), sy'n debygol o effeithio ar 67,000 o hawlwyrs ledled y DU yn 2013–14 a 75,000 yn 2014–15. Bydd llai na 3 y cant o'r aelwydydd hyn yr effeithir arnynt yng Nghymru (h.y. llai na 2,000), gyda chwarter ohonynt yng Nghaerdydd. Yn ôl prisiau 2013–14, amcangyfrifir y bydd y golled wythnosol ar gyfartaledd yn y DU tua £83 yr wythnos¹⁶ (nid oes data ar golledion wythnosol ar gael ar gyfer Cymru ar hyn o bryd).

Caiff diwygiadau lles penodol eu dadansoddi'n fanylach yn ystod camau diweddarach y rhaglen waith hon.

3. Effaith ariannol gronnol ddisgwyliedig y diwygiadau lles

Fel y trafodwyd uchod, disgwylir i ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU effeithio ar grwpiau o hawlwyrs mewn amrywiaeth o ffyrdd gan ddibynnu ar y newidiadau a wneir i bob un o'r budd-daliadau (unigol neu luosog) y maent yn eu hawlio a nodweddion eu haelwyd (e.e. incwm a math o aelwyd). Bydd effeithiau'r diwygiadau lles yn y pen draw hefyd yn dibynnu'n raddol ar gryfder yr economi ehangach ac i ba raddau y bydd pobl yn newid eu hymddygiad mewn ymateb i'r gostyngiadau budd-dal. Yn arbennig, bydd argaeledd ac atyniad swyddi yn ffactor pwysig wrth bennu'r effaith gyffredinol.

¹⁵ Under-Occupation of Social Housing – Impact assessment (DWP, 2011).

¹⁶ Household Benefit Cap – Impact assessment (DWP, 2012).

Mae'n bwysig nodi bod dadansoddiadau'r IFS a drafodir isod yn seiliedig ar ddull gweithredu statig ac felly nad ydynt yn ystyried ymatebion ymddygiadol. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi modelu effaith ddosbarthiadol y newidiadau treth a budd-dal ar aelwydydd. Mae'r un cyfyngiad yn berthnasol i'w dull gweithredu nhw yn yr ystyr ei fod yn canolbwyntio ar effaith 'diwrnod canlynol' y mesurau polisi, ac felly na chaiff effeithiau ymddygiadol dros amser eu modelu (bydd Cam 2 o raglen waith Llywodraeth Cymru yn ceisio amcangyfrif ymatebion ymddygiadol tebygol i'r diwygiadau lles). Mae cyfyngiadau pellach hefyd yn berthnasol i ddadansoddiad dosbarthiadol Llywodraeth y DU fel y nodwyd gan yr IFS. Yn benodol, dim ond dadansoddiad rhannol a geir yn y dadansoddiad diweddaraf ar lefel unigol gan mai dim ond tua 70 y cant o'r newidiadau credyd treth a budd-dal a gaiff eu rhoi ar waith yn 2012–13 a ystyrir. Oherwydd y cyfyngiadau hyn, defnyddiwyd dadansoddiadau'r IFS, yr ystyrir eu bod yn fwy cyflawn, drwy gydol y papur hwn.

Fel y crybwyllwyd, nododd Cyllideb Mehefin 2010 ac Adolygiad o Wariant 2010 tua £18 biliwn mewn newidiadau lles erbyn 2014/15 (gweler **Atodiad 2**). Bydd y cyfraniad mwyaf o bell ffordd (£6 biliwn) i'r arbedion hyn yn deillio o fynegeio fwy neu lai pob budd-dal i'r CPI yn hytrach na'r RPI. Mae'r CPI fel arfer yn is na'r RPI, gyda'r gyfradd CPI ar gyfartaledd yn 3.1 y cant dros y pum mlynedd hyd at fis Hydref 2011 o gymharu â 3.5 y cant ar gyfer yr RPI. Felly mae'r newid i'r system uwchraddio hon yn debygol iawn o roi terfyn ar godiadau mewn incwm i hawlwyr budd-dal. At hynny, mae'n debygol y caiff y newid hwn effaith anghymesur yng Nghymru o ganlyniad i'r ffaith bod mwy o boblogaeth Cymru yn dibynnu ar daliadau budd-dal. Yn ogystal, cyhoeddodd Cyllideb 2011 a Datganiad Hydref 2011 newidiadau pellach i'r system les, gyda chyfanswm arbedion o tua £1.3 biliwn erbyn 2014/15. Yn benodol, ni fydd y codiad uwchlaw chwyddiant i elfen plant y Credyd Treth Plant yn mynd rhagddo, gan arbed tua £1 biliwn erbyn 2014/15. Hefyd, caiff elfen cwpwl ac elfen rhieni unigol y Credyd Treth Gwaith eu rhewi ac ni chânt eu huwchraddio yn ôl y CPI, gan arbed £275 miliwn erbyn 2014/15.

Er bod ffocws y rhaglen waith hon ar effaith y diwygiadau lles yng Nghymru, aeth rhywfaint o'r dystiolaeth gyhoeddedig a ddefnyddiwyd dros y dudalen ati i asesu effaith gyfun y newidiadau treth a budd-dal. Hyd y gwyddom, prin iawn yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am effaith gronol y newidiadau budd-dal ar eu pennau eu hunain, ac yn arbennig ar lefel Cymru. Fodd bynnag, caiff hyn ei ystyried fel rhan o Gam 2.


a. Effeithiau rhanbarthol

Yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010, cynhaliodd yr IFS ddadansoddiad o effaith gronol bosibl y diwygiadau treth a budd-dal ar draws rhanbarthau Lloegr a gwledydd datganoledig y DU¹⁷. Gellir priodoli'r amrywiadau gofodol o ran effaith y diwygiadau i wahaniaethau o ran nodweddion aelwydydd. Yn ôl y disgwyl, o gofio'r ffaith bod cyfran uwch o boblogaeth Cymru yn hawlio budd-daliadau a hefyd o ganlyniad i'r ffaith bod lefelau incwm cyfartalog yn is yng Nghymru, mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd yr effaith gyfrannol yng Nghymru ychydig yn fwy difrifol na'r cyfartaledd ledled y DU yn gyffredinol. Fel y dengys Ffigur 1, erbyn 2014–15, disgwylir i aelwydydd yng Nghymru golli 4.1 y cant o'u hincwm ar gyfartaledd (neu £1,110 y flwyddyn) o ganlyniad i'r newidiadau treth a budd-dal. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd colled o 3.8 y cant ar gyfer y DU (neu £1,170 y flwyddyn). O'r 12 o ranbarthau a gwledydd yn y DU a ddadansoddwyd gan yr IFS, dim ond aelwydydd yng Ngogledd Iwerddon a Llundain y disgwylir iddynt golli swm cyfrannol fwy na Chymru.

Mewn termau arian parod, disgwylir mai aelwydydd yng Nghymru fydd yn dioddef y chweched colled arian parod mwyaf ond un ar gyfartaledd, er bod hynny'n llai na'r golled arian parod gyfartalog ar gyfer y DU yn gyffredinol. Mae hyn oherwydd bod y golled arian parod gyffredinol ar gyfer y DU yn cael ei gwthio am i fyny gan rai colledion arian parod mawr iawn i'r aelwydydd mwyaf cyfoethog, y mae cyfran anghymesur ohonynt wedi'u lleoli yn Llundain. Mae'r newidiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU yn effeithio'n benodol ar yr aelwydydd hyn. Yn ogystal, bydd y gostyngiadau Budd-dal Tai yn cael effaith anghymesur ar aelwydydd yn Llundain o gofio ei bod yn ardal rhent uchel. Cymru fydd un o'r rhanbarthau a fydd fwyaf ar ei cholled yn sgil newidiadau budd-dal a gyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant 2010, yn arbennig oherwydd y niferoedd uchel o unigolion sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth hirdymor (fel y nodwyd yn Adran 2).

¹⁷ *The Impact of Tax and Benefit Reforms to be Introduced between 2010–11 and 2014–15 in Northern Ireland* (IFS, 2010). Gan fod y dadansoddiad hwn wedi'i gyhoeddi yn dilyn Adolygiad o Wariant 2010, nid yw'n ymgorffori'r newidiadau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2011 a Datganiad Hydref 2011. Hefyd, nid yw'n rhoi cyfrif am effaith Credyd Cynhwysol (y bwriedir iddo gael ei gyflwyno o fis Hydref 2013). Mae gwaith dadansoddi diweddarach gan yr IFS yn awgrymu bod natur atchwelol y newidiadau treth a budd-dal i'w cyflwyno erbyn 2014–15 yn llawer llai amlwg unwaith y caiff effaith lawn Credyd Cynhwysol ei hystyried. Caiff effaith Credyd Cynhwysol ei hasesu'n fanwl fel rhan o Gam 3 o raglen waith Llywodraeth Cymru i ddadansoddi effaith y diwygiadau lles yng Nghymru.

Ffigur 1: Effaith y newidiadau treth a budd-dal i'w cyflwyno rhwng 2010–11 a 2014–15 fesul rhanbarth o'r DU



Ffynhonnell: *The Impact of Tax and Benefit Reforms to be Introduced between 2010–11 and 2014–15 in Northern Ireland* (IFS, 2010)

Yn yr un ffordd ag y bydd y newidiadau budd-dal a gaiff eu rhoi ar waith yn ystod y blynyddoedd nesaf yn atchwelol ar gyfer pedwar pumed isaf y dosbarthiad incwm ar lefel y DU, byddant hefyd yn atchwelol yng Nghymru (h.y. byddant yn cymryd swm cyfrannol uwch o grwpiau incwm is na grwpiau incwm uwch, ac eithrio'r grŵp incwm uchaf un), yn ôl dadansoddiad IFS. Dengys Tabl 5 yr effaith ddisgwyliedig fesul cwintel incwm¹⁸ ar gyfer pob un o ranbarthau Lloegr a gwledydd datganoledig y DU. Gallwn weld bod y golled i'r pedwar cwintel tlotaf yn uwch i'r rheini yng Nghymru na'r cyfartaledd ar gyfer y DU yn gyffredinol ond ychydig yn is i'r cwintel mwyaf cyfoethog. Mae aelwydydd tlotach yng Nghymru yn colli mwy ar gyfartaledd yn sgil y diwygiadau budd-dal na'u cymheiriaid yng

¹⁸ Mae'r dadansoddiad hwn gan IFS wedi defnyddio grwpiau cwintel incwm (yn hytrach na degraddau) oherwydd meintiau sampl bach y rhanbarthau. Mae cwintelaau yn deillio o rannu pob aelwyd yn bump grŵp o faint cyfartal yn ôl incwm a'i addasu ar gyfer maint aelwydydd gan ddefnyddio graddfa cyfwerthedd McClements. Mae grŵp cwintel 1 yn cynnwys pumed tlotaf y boblogaeth, mae cwintel 2 yn cynnwys y tlotaf ond un, ac ati hyd at grŵp cwintel 5, sy'n cynnwys y pumed mwyaf cyfoethog.

ngweddill y DU, ond nid yw'r mesurau sy'n effeithio ar yr aelwydydd mwyaf cyfoethog yn y DU yn effeithio gymaint ar y cwintel mwyaf cyfoethog, a hynny gan mai prin iawn yw nifer yr aelwydydd mwyaf cyfoethog sydd yng Nghymru. Yng Nghymru, mae 14 y cant o aelwydydd yn y cwintel incwm uchaf. Dim ond yng Ngogledd Iwerddon y ceir cyfran is o aelwydydd yn y cwintel mwyaf cyfoethog hwn (12 y cant) allan o holl wledydd y DU. Mae tua dwy ran o dair o aelwydydd Cymru yn y tri chwintel isaf¹⁹.

Tabl 5: Colled fel canran o incwm net o'r newidiadau treth a budd-dal i'w cyflwyno rhwng 2010–11 a 2014–15 fesul cwintel incwm y DU

Rhanbarth	Tlotaf	2	3	4	Mwyaf cyfoethog	Pawb
Gogledd Ddwyrain Lloegr	-5.1%	-4.6%	-3.9%	-2.9%	-2.8%	-3.5%
Swydd Efrog	-5.1%	-4.2%	-2.9%	-2.9%	-4.5%	-3.8%
Gogledd Orllewin Lloegr	-5.6%	-4.6%	-3.8%	-2.9%	-4.0%	-4.0%
Dwyrain Canolbarth Lloegr	-4.6%	-3.8%	-3.5%	-2.8%	-3.3%	-3.5%
Gorllewin Canolbarth Lloegr	-4.9%	-4.4%	-3.4%	-2.7%	-3.2%	-3.5%
East Anglia	-4.6%	-3.6%	-3.3%	-2.9%	-3.6%	-3.5%
Llundain	-5.3%	-4.6%	-4.2%	-3.6%	-4.8%	-4.6%
De Ddwyrain Lloegr	-5.0%	-4.0%	-3.2%	-3.0%	-3.8%	-3.7%
De Orllewin Lloegr	-4.8%	-4.0%	-3.4%	-2.9%	-3.1%	-3.4%
Cymru	-5.6%	-5.4%	-4.0%	-3.2%	-3.8%	-4.1%
Yr Alban	-4.8%	-3.5%	-3.5%	-2.8%	-3.9%	-3.7%
Gogledd Iwerddon	-5.5%	-5.1%	-3.5%	-4.0%	-3.8%	-4.2%
Pob un	-5.2%	-4.4%	-3.6%	-3.0%	-3.9%	-3.8%

Ffynhonnell: *The Impact of Tax and Benefit Reforms to be Introduced between 2010–11 and 2014–15 in Northern Ireland* (IFS, 2010)

¹⁹ *Households Below Average Income – An Analysis of the Income Distribution 1994/95 – 2009/10*, Mai 2011 (DWP, 2011)

Mae dadansoddiad yr IFS a drafodir o'r blaen yn seiliedig ar effaith y diwygiadau treth a budd-dal yn ôl cwintel incwm. Ffordd amgen o asesu'r effaith fyddai fesul cwintel/degradd gwariant. Mae gan rai aelwydydd wariant blynyddol sy'n uwch na'u hincwm blynyddol, yn enwedig y rheini tua gwaelod y dosbarthiad incwm. I'r aelwydydd hynny, nid yw eu hincwm yn ariannu eu gwariant yn llwyr. I'r aelwydydd hyn, mae'n bosibl bod gwariant yn well dangosydd o'u safon byw nag incwm. Ar y sail hon, mae dadansoddiad yr IFS (ar lefel y DU) yn dilyn Cyllideb 2011 yn awgrymu bod polisiau Llywodraeth Glymblaid y DU yn atchwelol o hyd, a disgwylir i aelwydydd gwariant isel golli mwy na'r rheini yn y grwpiau uwch.

b. Effeithiau gofodol yng Nghymru

Yng Nghymru, bydd y newidiadau lles yn cael effaith andwyol ar rai ardaloedd yn fwy na'i gilydd. Mae'r posibilrwydd o gynnal dadansoddiad manwl o'r effaith benodol yn gyfyngedig gan y bydd unigolion yn hawlio amrywiaeth o wahanol fudd-daliadau. Fodd bynnag, fel y dengys Tabl 5, mae'r IFS wedi amcangyfrif yr effaith ar aelwydydd yn ôl eu hincwm. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, gallwn edrych ar y dosbarthiad incwm yng Nghymru a Lloegr i ddangos y crynodiad o aelwydydd incwm isel yng Nghymru²⁰. Fel y dengys Ffigur 2 (gweler tudalen 21), mae crynodiad o aelwydydd incwm isel yng Nghymoedd De Cymru ac ardaloedd canol dinas Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Mae'r holl ardaloedd tywyll yn Ffigur 2 yn hanner gwaelod y dosbarthiad incwm ar gyfer Cymru a Lloegr.

Fel y disgwylid, ceir cydberthynas gref rhwng aelwydydd incwm isel ac aelwydydd sydd hefyd yn hawlio budd-daliadau allan o waith²¹. Mae Ffigur 3 (tudalen 21) yn mapio'r dosbarthiad o hawlwr budd-daliadau allan o waith yng Nghymru. Fel y crybwyllwyd uchod, roedd tua 290,000 o bobl yn hawlio budd-daliadau allan o waith yng Nghymru ym mis Mai 2011. Gan ddefnyddio'r gyfran o'r boblogaeth sy'n hawlio budd-daliadau ynghyd â dosbarthiad aelwydydd incwm isel yng Nghymru, gallwn weld pa ardaloedd yng Nghymru y mae'r newidiadau budd-dal fwyaf tebygol o gael effaith anghymesur arnynt.

Dengys Ffigur 3 mai yng Nghymoedd De Cymru ac ardaloedd canol dinas Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe y mae'r crynodiad uchaf o hawlwr budd-dal. Yn rhai o'r ardaloedd hyn, mae mwy na 40 y cant o'r boblogaeth

²⁰ Mae'r data yn Nhabl 5 yn cyfeirio at y dosbarthiad incwm ledled y DU. Nid oes gennym wybodaeth gyson am ddosbarthiad incwm y DU yn gyffredinol. Felly mae Ffigur 2 yn edrych ar y dosbarthiad incwm i Gymru a Lloegr. Er y gallai peidio â chynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon arwain at amcangyfrif gormodol o nifer yr ardaloedd yng Nghymru yn y degraddau incwm isaf, nid effeithir ar batrwm cyffredinol incwm isel yng Nghymru. Bydd ardaloedd sydd yn rhan isaf y dosbarthiad incwm yng Nghymru a Lloegr hefyd yn rhan waelod y dosbarthiad ar lefel y DU.

²¹ Mae budd-daliadau allan o waith yn cynnwys Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd, budd-daliadau rhieni unigol a budd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig ag incwm.

breswyl o oedran gweithio yn hawlio budd-daliadau allan o waith. Gellir cymharu dosbarthiad yr unigolion sy'n cael budd-dal ar gyfer y rhan fwyaf o Gymru â'r dosbarthiad aelwydydd incwm isel a nodir yn Ffigur 2. Er y nodwyd bod rhai ardaloedd gwledig yng Nghymru yn y degraddau incwm isaf, nid yw'r ardaloedd hyn yn gysylltiedig â chrynodiadau uchel o aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau allan o waith. Fodd bynnag, mae'n werth nodi, ar gyfartaledd, fod lefelau incwm yn uwch mewn ardaloedd gwledig nag ardaloedd nad ydynt yn rhai gwledig.


Mae Wavehill Cyf (2011) wedi cynnal gwaith ymchwil i effaith y polisi O Fudd-dal i Waith yn rhai o'r ardaloedd hynny yng Nghymru lle ceir lefelau uchel o hawlwydd budd-dal, sef Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf. O gofio'r ffaith bod llawer o bobl yn dibynnu ar fudd-daliadau, mae'r adroddiad yn awgrymu bod y newidiadau sylweddol o ran lefelau taliadau budd-dal a chyfundrefnau asesu ar gyfer rhai budd-daliadau penodol yn debygol iawn o gael effaith ar nifer fawr o breswylwyr yn yr ardal tair bwrdeistref hon. Ar gyfer y tair bwrdeistref hon, mae Wavehill Cyf yn amcangyfrif y gallai effeithiau rhai budd-daliadau penodol gynnwys y canlynol²²:

- effaith ar 16,900 o unigolion o ganlyniad i gyflwyno'r Rhaglen Waith o fis Mehefin 2011
- effaith ar dros 12,000 o aelwydydd heb waith o ganlyniad i newidiadau Credyd Treth a fydd yn cyfateb i ostyngiad incwm posibl o £8.7 miliwn hyd at 2014
- effaith ar dros 33,200 o aelwydydd o ganlyniad i newidiadau Budd-dal Tai
- effaith ar dros 25,000 o unigolion o ganlyniad i'r newidiadau i Fudd-dal Analluogrwydd
- effaith ar dros 39,000 o unigolion o ganlyniad i'r newidiadau i Lwfans Byw i'r Anabl gyda gostyngiad incwm posibl o £12.1 miliwn hyd at 2014
- effaith ar dros 5,300 o rieni unigol o ganlyniad i newidiadau Cymhorthdal Incwm
- effaith ar dros 6,200 o unigolion o ganlyniad i newidiadau i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gyda gostyngiad incwm posibl o £24.8 miliwn erbyn 2014²³.

²² Mae amcangyfrifon Wavehill yn seiliedig ar ystadegau swyddogol DWP a Chyllid a Thollau EM (HMRC) yn ogystal â gwaith ymchwil arall gan gynnwys 'From Witney to Wigan: How national changes to welfare benefit rules have a differential impact on local communities' gan A Franco (2011).


²³ *Research Review of the Impact of Welfare to Work Policy in Merthyr Tydfil, Blaenau Gwent and Rhondda Cynon Taff* (Wavehill, 2011)

Ffigur 2



Ffynhonnell: ONS, Small Area Income Estimates (2007/08)

Ffigur 3



Ffynhonnell: Ystadegau DWP (Mai 2011)

c. Effaith yn ôl math o aelwyd


Mae'r IFS hefyd wedi dadansoddi effaith ddosbarthiadol (ar incwm net) y newidiadau treth a budd-dal i'w cyflwyno rhwng mis Ionawr 2011 a mis Ebrill 2014 ar wahanol fathau o aelwydydd. Ehangwyd y dadansoddiad hwn yn ddiweddar i gynnwys mesurau a gyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2011 ac mae bellach yn cynnwys senario hefyd lle bydd y Credyd Cynhwysol ar waith yn llawn erbyn 2014–15²⁴. Er y bydd hawlwyd yn dechrau cael eu trosglwyddo o'r system treth a budd-daliadau gyfredol i Gredyd Cynhwysol o fis Ebrill 2014 ymlaen, bydd y broses hon yn cymryd pedair blynedd i'w chwblhau. Felly, bydd y sefyllfa wirioneddol yn 2014–15 rywle rhwng y ddwy senario a ddadansoddwyd (sef senario gyda Chredyd Cynhwysol a senario heb Gredyd Cynhwysol). Ar gyfartaledd, mae'r IFS yn disgwyl i hyn fod yn agosach at y senario heb Gredyd Cynhwysol.

Er mai ar lefel y DU y cynhaliwyd y dadansoddiad hwn, gellir dod i gasgliadau i Gymru. Mae Ffigurau 4 a 5 (tudalen 23) yn crynhoi'r dadansoddiad diweddar hwn, sy'n dangos bod teuluoedd â phlant yn colli swm cyfrannol fwy o'u hincwm ar draws y dosbarthiad incwm o gymharu â'r holl fathau eraill o aelwydydd a ddadansoddwyd, ni waeth a roddir cyfrif am y Credyd Cynhwysol ai peidio. Er enghraifft, o edrych ar y senario cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol, gwelwn, ar gyfartaledd, yr amcangyfrifir y bydd teuluoedd â phlant yn colli ychydig dros 6 y cant o'u hincwm yn 2014–15 (neu £2,390), o gymharu ag ychydig islaw 4 y cant i bob aelwyd (neu £1,080) a 3 y cant i aelwydydd o oedran gweithio heb blant (neu £1,090). Mae pensiynwyr yn colli llai na 2 y cant o'u hincwm (neu £320). Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r gostyngiadau i fudd-daliadau oedran gweithio a'r ffaith bod teuluoedd â phlant yn dibynnu'n fwy ar fudd-daliadau na theuluoedd heb blant. Mae gan Gymru gyfran uwch o blant mewn teuluoedd sy'n hawlio budd-daliadau allan o waith o gymharu â Lloegr (y naill yn 21.4 y cant a'r llall yn 19.7 y cant²⁵). Fel y cyfryw, mae'r effaith ar y math hwn o aelwyd yn debygol o fod yn uwch yng Nghymru.

²⁴ *The Impact of Austerity Measures on Households with Children* (IFS, 2012)


²⁵ Ffynhonnell: HRMC

Ffigur 4: Colledion o'r newidiadau trethi a budd-daliadau i'w cyflwyno rhwng mis Ionawr 2011 a mis Ebrill 2014 yn ôl grŵp deigradd incwm a math o aelwyd, heb Gredyd Cynhwysol



Ffynhonnell: *The Impact of Austerity Measures on Households with Children* (IFS, 2012)

Ffigur 5: Colledion o'r newidiadau trethi a budd-daliadau i'w cyflwyno rhwng mis Ionawr 2011 a mis Ebrill 2014 yn ôl grŵp deigradd incwm a math o aelwyd, gyda Chredyd Cynhwysol



Ffynhonnell: *The Impact of Austerity Measures on Households with Children* (IFS, 2012)

At hynny, mae Ffigurau 4 a 5 hefyd yn awgrymu mai'r aelwydydd tlotaf â phlant fydd yn colli'r gyfran uchaf o'u hincwm o ganlyniad i'r newidiadau trethi a budd-daliadau. O dan y senario lle nad ystyrir Credyd Cynhwysol, mae'r IFS yn amcangyfrif, ar gyfartaledd, y bydd teuluoedd yn y deigradd incwm tlotaf²⁶ yn colli tua 10 y cant o'u hincwm yn 2014–15 (neu £1,810) o gymharu â'r sefyllfa lle na wneir unrhyw newidiadau i'r system trethi a budd-daliadau. Mae'r grŵp hwn yn parhau i golli swm cyfrannol fwy ar gyfartaledd (tua chwech y cant neu £1,100 y flwyddyn) hyd yn oed ar ôl i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno, er gwaethaf y ffaith mai dyma'r grŵp sy'n elwa fwyaf ar y newid penodol hwn i'r system les.


O edrych yn fanylach ar fathau o aelwydydd, disgwylir mai ar rieni unigol nad ydynt yn gweithio y bydd yr effaith fwyaf o ran eu colled fel cyfran o'u hincwm (fel y nodir yn Ffigurau 6 a 7). Disgwylir iddynt golli mwy na 12 y cant o'u hincwm ar gyfartaledd yn 2014–15, sy'n cyfateb i tua £2,050–£2,100 (yn dibynnu a gyfrifir am Gredyd Cynhwysol ai peidio). Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â dadansoddiad cynharach ar effaith y newidiadau trethi a budd-daliadau yn ôl rhyw, a gyhoeddwyd gan yr IFS yn ystod haf 2011²⁷. Mae hyn yn awgrymu i byddai'r diwygiadau trethi a budd-daliadau i'w cyflwyno rhwng 2012–13 a 2014–15 yn gyfrannol yn lleihau incwm aelwydydd â merch sengl yn fwy nag aelwydydd â dyn sengl. Mae'r IFS wedi priodoli'r gwahaniaeth hwn i'r ffaith mai prin iawn yw'r dynion sy'n byw heb unrhyw oedolion eraill sy'n rhieni unigol (mae dros 90 y cant o rieni unigol yn ferched). O gofio bod rhieni unigol yn dibynnu'n helaeth ar incwm o fudd-daliadau, maent yn colli swm arbennig o fawr yn sgil rhai o'r diwygiadau budd-dal, yn arbennig y newid i ddefnyddio'r CPI i uwchraddio budd-daliadau bob blwyddyn.

Disgwylir hefyd y bydd y newidiadau trethi a budd-daliadau yn cael effaith sylweddol ar gyplau heb waith â phlant, gan golli tua 11–12 y cant o'u hincwm ar gyfartaledd yn 2014–15 (neu tua £2,410–£2,800 y flwyddyn), gan ddibynnu a gynhwysir effaith Credyd Cynhwysol ai peidio – gweler Ffigurau 6 a 7.

²⁶ Mae'r IFS yn creu grwpiau deigradd incwm drwy rannu pob aelwyd yn 10 grŵp o faint cyfartal yn ôl incwm a'i addasu ar gyfer maint aelwydydd gan ddefnyddio graddfa cyfwerthedd McClements. Mae grŵp deigradd 1 yn cynnwys degfed tlotaf y boblogaeth, mae deigradd 2 yn cynnwys y tlotaf ond un, ac yn y blaen hyd at grŵp deigradd 10, sy'n cynnwys y degfed mwyaf cyfoethog.


²⁷ *The impact of tax and benefit reforms by sex: some simple analysis* (IFS, 2011). Gan mai yn haf 2011 y cyhoeddwyd yr adroddiad hwn, nid yw'n ystyried y newidiadau trethi a budd-daliadau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2011 ac yn Natganiad Hydref 2011. Felly, mae'r canfyddiadau yn tanamcangyfrif yr effaith ar rieni unigol gan nad ydynt yn adlewyrchu'r cyhoeddiad na fydd y cynnydd uwchlaw chwyddiant yn elfen plant y Credyd Treth Plant yn cael ei gyflwyno.

Ffigur 6: Colledion ar gyfer gwahanol fathau o aelwydydd yn deillio o'r newidiadau trethi a budd-daliadau i'w cyflwyno rhwng mis Ionawr 2011 a mis Ebrill 2014, heb Gredyd Cynhwysol



Ffynhonnell: *The Impact of Austerity Measures on Households with Children* (IFS, 2012)

Ffigur 7: Colledion ar gyfer gwahanol fathau o aelwydydd yn deillio o'r newidiadau trethi a budd-daliadau i'w cyflwyno rhwng mis Ionawr 2011 a mis Ebrill 2014, gyda Chredyd Cynhwysol



Ffynhonnell: *The Impact of Austerity Measures on Households with Children* (IFS, 2012)

Mae cyfran y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith yng Nghymru yn uwch na'r gyfran yn y DU – 19.4 y cant yng Nghymru o gymharu ag 16.2 y cant ar gyfer y DU (Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu 2009–11). Fel y cyfryw, disgwylir y bydd unrhyw effeithiau negyddol ar y math hwn o aelwyd yn anghymesur yng Nghymru.

Mae'r IFS hefyd wedi ymchwilio i'r ffordd mae effaith y newidiadau treth a budd-dal yn amrywio yn ôl nifer y plant mewn aelwyd ac oedran y plentyn ifancaf. Mae'r canfyddiadau yn awgrymu y bydd y gostyngiad o ran incwm y teulu yn waeth i'r teuluoedd hynny â dau blentyn neu fwy, yr amcangyfrifir y byddant ar gyfartaledd yn colli tua 6–10 y cant o'u hincwm yn 2014–15 (gan ddibynnu a gyfrifir am Gredyd Cynhwysol ai peidio a faint o blant sydd ganddynt). Mae'r golled ar gyfartaledd i bob aelwyd â phlant tua 6 y cant. Mae teuluoedd mawr yn fwy tebygol o fod yn y grwpiau incwm is (sef y grwpiau y caiff natur atchwelol y newidiadau lles yr effaith fwyaf arnynt). Nhw sy'n dibynnu fwyaf ar fudd-daliadau ac felly sydd fwyaf ar eu colled yn sgil y toriadau lles arfaethedig i'w cyflwyno rhwng 2012–13 a 2014–15. Bydd y terfyn budd-daliadau i'w gyflwyno yn 2013–14 yn cael effaith arbennig o ddifrifol arnynt. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, mae'r IFS yn disgwyl y bydd y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn lleihau'r effaith i ryw raddau. Yn ogystal â'r effaith sylweddol ar deuluoedd mawr, yn ôl yr IFS, bydd y terfyn budd-daliadau hefyd yn cael effaith anghymesur ar deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd rhent uchel. Gan fod rhenti yng Nghymru yn is na'r DU, ni ddylai effaith y newid hwn fod cynddrwg â'r effaith ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol, er y caiff effaith negyddol o hyd. Yn wir, mae'r asesiad effaith ar gyfer y Terfyn Budd-dal Tai a ddiweddarwyd yn ddiweddar gan DWP yn amcangyfrif y bydd llai na 3 y cant (o dan 2,000) o'r aelwydydd yr effeithir arnynt yn y DU yng Nghymru.

O ran effaith oedran y plentyn ifancaf yn yr aelwyd, noda'r IFS nad yw'r gwahaniaeth rhwng aelwydydd mor amlwg â'r gwahaniaeth o ran nifer y plant yn yr aelwyd. O dan y senarios 'heb Gredyd Cynhwysol a chyda Chredyd Cynhwysol', bydd aelwydydd lle mae'r plentyn ifancaf yn 0–4 oed neu'n 5–10 oed yn colli mwy na'r aelwyd gyffredin â phlant, ac ni fydd aelwydydd lle mae'r plentyn ifancaf yn 11–18 oed yn colli cymaint (er y bydd effaith negyddol arnynt o hyd). Mae rhai o'r newidiadau a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2011 yn cael effaith sylweddol ar aelwydydd a babanod newydd-anedig, gan gynnwys y ffaith bod elfen babanod y credydau treth wedi'i diddymu a'r ffaith bod Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn wedi'i gyfyngu i'r plentyn cyntaf yn unig. Mae'r aelwydydd hyn hefyd yn debygol o golli mwy na'r swm cyfartalog yn sgil lleihau elfen gofal plant y

Credyd Treth Gwaith o fis Ebrill 2011. Gan fod aelwydydd â phlant hŷn yn llai tebygol o ddefnyddio gofal plant, ceir llai o effaith arnynt. At hynny, noda dadansoddiad yr IFS fod aelwydydd â phlant hŷn yn fwy tebygol o gynnwys dau enillydd yn hytrach nag un. Mae'r math hwn o aelwyd yn colli llai yn sgil y toriadau lles yn 2013–14 a 2014–15 fel cyfran o'i incwm o gymharu ag aelwydydd eraill â phlant, sy'n awgrymu hefyd y bydd llai o effaith ar aelwydydd â phlant hŷn.

Mae'r IFS hefyd wedi ymchwilio i'r effaith ddosbarthiadol ymhlith aelwydydd â phlant yn ôl daliadaeth tai. O dan y senario heb Gredyd Cynhwysol, mae aelwydydd sy'n rhentu (yn y sector rhentu cymdeithasol a'r sector rhentu preifat) yn colli tua 9 y cant o'u hincwm yn 2014–15, sef colled fwy na'r golled i aelwydydd â morgais neu o dan berchnogaeth lwyr (tua 6 y cant). Y rheswm am hyn yw bod aelwydydd â phlant sy'n rhentu yn fwy tebygol o fod yn dlotach ar gyfartaledd, ac, fel y crybwyllwyd, disgwylir i deuluoedd tlotach â phlant golli mwy ar gyfartaledd na theuluoedd mwy cyfoethog (yn arbennig o ran y newidiadau yn ystod y blynyddoedd diweddarach). Yn arbennig, caiff y toriadau i fudd-dal tai effaith negyddol ar y rheini mewn llety rhent cymdeithasol yr ystyrir eu bod yn tanfeddiannu eu aelwyd (yn 2013–14), a chaiff y newidiadau i'r Lwfans Tai Lleol yn 2011 effaith sylweddol ar y rheini yn y sector rhent preifat. Fodd bynnag, mae'r IFS yn disgwyl y bydd y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn lleihau'r golled gyfartalog i aelwydydd rhentu preifat a rhentu cymdeithasol yn sylweddol. Y rheswm am hyn yw mai'r rheini mewn llety wedi'i rentu ac mewn cyflogaeth â thâl sy'n elwa fwyaf ar Gredyd Cynhwysol o gofio mai un o'i nodau allweddol yw atgyfnerthu'r cymhelliant ariannol i weithio, yn arbennig i'r rheini â'r cymhellion gwaethaf i weithio (e.e. unigolion sy'n rhentu o dan y system gyfredol). Felly bydd ymgymryd â chyflogaeth â thâl yn fwy buddiol i'r grŵp hwn.

O ran pensiynwyr, dengys Ffigurau 4 a 5 (uchod) mai'r math hwn o aelwyd yw'r math yr effeithir arno leiaf gan y newidiadau trethi a budd-daliadau ar draws y dosbarthiad incwm. Y rheswm am hyn yw nad yw'r toriadau lles sy'n effeithio ar unigolion o oedran gweithio wedi cael effaith sylweddol ar fudd-daliadau i bensiynwyr. Hefyd, nid yw pensiynwyr yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac felly ni fydd y codiadau yn y cyfraddau hyn yn effeithio arnynt. Mae dadansoddiad yn *Average losses for pensioner households from tax and benefit changes to be introduced between January 2011 and April 2014* (IFS, 2011) yn awgrymu mai'r mesurau allweddol sy'n cael effaith negyddol ar bensiynwyr yw'r cynnydd yn y gyfradd TAW

safonol i 20 y cant a'r penderfyniad i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau anabled yn unol â'r CPI. Mae oedolion o oedran gweithio heb blant yn rhan ganol uchaf y dosbarthiad incwm hefyd yn colli cyfran gymharol isel o'u hincwm yn sgil y newidiadau trethi a budd-daliadau gan nad yw'r toriadau lles yn effeithio arnynt ac mai nhw sy'n elwa fwyaf ar bolisiau megis codi'r lwfans personol treth incwm.

d. Effaith ar gymhellion i weithio

Yn ogystal ag asesu effaith y newidiadau treth a budd-dal ar incwm aelwydydd, mae'r IFS wedi archwilio'r effaith ar y cymhelliant i wneud gwaith cyflogedig o gwbl a'r cymhelliant i'r rheini sy'n gwneud gwaith cyflogedig ar hyn o bryd i gynyddu eu henillion²⁸ dros y cyfnod 2010–2014. Caiff y cymhellion hyn eu mesur gan y Gyfradd Dreth Gyfrangol (cyfran yr enillion a gaiff ei cholli naill ai mewn trethi uwch neu llai o hawl i fudd-dal pan fydd unigolion yn dechrau gweithio) a'r Gyfradd Dreth Effeithiol Ymylol (canran cynnydd bach mewn enillion a gaiff ei cholli mewn treth neu lai o hawl i fudd-dal).

Mae dadansoddiad yr IFS yn awgrymu y bydd newidiadau trethi a budd-daliadau (gan gynnwys Credyd Cynhwysol) i'w cyflwyno erbyn 2014, ar gyfartaledd, yn atgyfnerthu'r cymhelliant i'r boblogaeth yn gyffredinol ymgymryd â gwaith cyflogedig. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd gwahanol effeithiau ar is-grwpiau o'r boblogaeth.

- **Y rheini heb blant:** ar gyfartaledd, disgwylir i'r cymhellion i bobl sengl heb blant a chyplau heb blant ymgymryd â gwaith cyflogedig gael eu hatgyfnerthu. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r diwygiadau i lwfans personol treth incwm, Yswiriant Gwladol a'r ffaith caiff budd-daliadau allan o waith eu mynegeo yn unol â'r CPI.
- **Y rheini â phlant:** ar gyfartaledd, disgwylir i gymhellion ariannol i weithio i rieni unigol gael eu hatgyfnerthu'n sylweddol (yn arbennig o ganlyniad i effaith y Credyd Cynhwysol). Ond, ar gyfartaledd, mae'n debygol bydd y cymhelliant i gyplau â phlant ymgymryd â gwaith cyflogedig ychydig yn is (yn rhannol o ganlyniad i'r newidiadau i'r system credyd treth).

Mae'n werth nodi, er bod disgwyl i'r newidiadau trethi a budd-daliadau (gan gynnwys Credyd Cynhwysol) a gaiff eu rhoi ar waith erbyn 2014 atgyfnerthu'r cymhelliant i ymgymryd â gwaith

²⁸ Mae'r dadansoddiad hwn yn yr adroddiad *The Impact of Austerity Measures on Households with Children* (IFS, 2012).

cyflogedig i'r rhan fwyaf o is-grwpiau o'r boblogaeth, y disgwylir i gymhellion i weithio leihau i'r ail enillydd mewn cwpwl (i'r rheini â phlant a'r rheini heb blant).

O ran y cymhellion i'r rheini sy'n ymgymryd â gwaith cyflogedig i ennill mwy, mae dadansoddiad yr IFS yn awgrymu y bydd y diwygiadau a gaiff eu cyflwyno erbyn 2014 (gan gynnwys Credyd Cynhwysol) yn lleihau'r cymhelliant i ennill mwy, ar gyfartaledd, i'r boblogaeth yn gyffredinol. O ran yr effaith ar rai is-grwpiau penodol o'r boblogaeth, ar gyfartaledd, disgwylir y bydd y cymhelliant i gynyddu enillion i'r rheini heb blant (pobl sengl a chyplau) yn llai, felly hefyd i gyplau â phlant. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, mae'r cymhelliant i rieni unigol ennill mwy yn debygol o gynyddu'n sylweddol yn bennaf o ganlyniad i effaith Credyd Cynhwysol.

4. Effaith ar dlodi


Mae'r IFS hefyd wedi amcangyfrif effaith uniongyrchol y diwygiadau trethi a budd-daliadau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth Glymblaid ar dlodi (ar lefel y DU) drwy gymharu'r rhagolygon ag amcanestyniad yn tybio na châi unrhyw rai o ddiwygiadau'r llywodraeth eu cyflwyno²⁹. Fel y dengys Ffigur 8, disgwylir i ddiwygiadau lles y Glymblaid a gyhoeddwyd hyd at haf 2011 godi tlodi incwm cymharol³⁰ ymhlith teuluoedd â phlant yn fwy nag ymhlith oedolion o oedran gweithio heb blant³¹.

²⁹ Ffynhonnell: *Child and Working-Age Poverty from 2010 to 2020* (IFS, 2011).

³⁰ Fel y nodir yn Neddff Tlodi Plant (2010), bydd unigolyn yn wynebu tlodi incwm cymharol mewn blwyddyn benodol os bydd incwm ei aelwyd islaw 60 y cant o'r canolrif ar gyfer incwm aelwydydd cenedlaethol yn ystod y flwyddyn honno. Bydd unigolyn yn wynebu tlodi incwm absoliwt mewn blwyddyn benodol os bydd incwm ei aelwyd yn ystod y flwyddyn honno islaw 60 y cant o ganolrif cenedlaethol 2010–11 (mewn termau real).

³¹ Mae'n werth nodi, yn ystod y blynyddoedd cyn y cyfnod cyfredol, y cafodd lefelau budd-daliadau yn seiliedig ar brawf modd eu herydu yn yr hirdymor o gymharu â'r enillion cyfartalog ar gyfer oedolion o oedran gweithio heb blant (yn seiliedig ar ddata budd-daliadau DWP a mynegeion enillion yr ONS).

Ffigur 8: Cyfraddau tlodi incwm cymharol a ragwelir cyn costau tai o dan bolisïau cyfredol a heb ddiwygiadau treth a budd-dal Llywodraeth y Glymblaid.



Ffynhonnell: *Child and Working-Age Poverty from 2010 to 2020* (IFS, 2011)

Fel y dengys Ffigur 8, mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd diwygiadau'r Llywodraeth Glymblaid yn cael effaith negyddol ar dlodi plant. Ar gyfer 2012–13, mae eu dadansoddiad yn awgrymu y bydd y diwygiadau yn cynyddu tlodi plant cymharol yn y DU tua 100,000, tlodi plant absoliwt tua 200,000, a thlodi absoliwt ymhlith oedolion o oedran gweithio heb blant dibynnol tua 100,000. Cyfrannau cymesur amcangyfrifedig amodol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru wedi'u haddasu ar gyfer gwahaniaethau mewn tlodi yw 6,000, 10,000, a 5,000 yn y drefn honno³². Yn 2013–14, mae rhagamcanion yr IFS ar gyfer y DU yn awgrymu y bydd diwygiadau'r Llywodraeth Glymblaid yn arwain at gynnydd o tua 300,000 o blant a 100,000 o oedolion o oedran gweithio heb blant dibynnol yn nifer yr unigolion a fydd yn wynebu tlodi cymharol a thlodi absoliwt. Cyfrannau cymesur amcangyfrifedig amodol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru wedi'u haddasu ar gyfer gwahaniaethau mewn tlodi yw cynnydd o 17,000 a 16,000 yn nifer yr unigolion a fydd yn wynebu tlodi cymharol a thlodi absoliwt. Amcangyfrifir y bydd tlodi absoliwt a thlodi cymharol ymhlith oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn cynyddu 5,000.

³² Cyfrifwyd yr amcangyfrifon gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru. Maent yn seiliedig ar boblogaeth plant Cymru o gymharu â'r DU wedi'i addasu yn ôl y gymhareb tlodi plant yng Nghymru i dlodi plant yn y DU. Costau cyn tai yw'r ffigurau ac fe'u talgrynnir i'r 1,000 agosaf.

Y tu hwnt i 2013, caiff y diwygiadau effaith gyffredinol ychydig yn llai ar dlodi plant cymharol (o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol) tra bydd tlodi plant absoliwt yn parhau'n gymharol gyson. Fel y crybwyllwyd uchod, disgwylir i'r diwygiadau gael effeithiau mwy ar dlodi cymharol ac absoliwt ymhlith y rheini o oedran gweithio heb blant wrth i amser fynd yn ei flaen.

Er y disgwylir i Gredyd Cynhwysol ar ei ben ei hun leihau tlodi cymharol yn sylweddol, caiff hyn ei wrthbwysu'n sylweddol gan effaith cynyddu tlodi newidiadau eraill y llywodraeth i'r system trethi a budd-daliadau, yn enwedig y newid i fynegeio gan ddefnyddio'r CPI (IFS, 2011). Fodd bynnag, mae'r IFS yn awgrymu y caiff amodau economaidd ehangach, fel chwyddiant uchel a thwff gwan o ran enillion, fwy o effaith ar lefelau tlodi na'r diwygiadau lles.

Tan yn ddiweddar, daeth dadansoddiad Trysorlys EM i'r casgliad na fyddai'r diwygiadau yn cael effaith negyddol ar dlodi plant cymharol hyd at 2012–13. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad dosbarthiadol diweddaraf a wnaed ganddo sy'n cyd-fynd â Datganiad Hydref 2011 yn amcangyfrif y bydd y diwygiadau yn cynyddu tlodi plant cymharol yn y DU tua 100,000 yn 2012–13 (cyfran gymesur amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru i Gymru yw 6,000³³). Mae hyn gan fod ei broses fodelu bellach yn cynnwys y diwygiadau i'r Lwfans Tai Lleol, a hefyd oherwydd effaith y toriadau credyd treth a gyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2011.

Mae'n bwysig nodi bydd yr ymateb ymddygiadol yn dilyn y diwygiadau yn effeithio ar yr effaith ar dlodi. Er enghraifft, mae Llywodraeth y DU yn disgwyl y bydd nifer o'r diwygiadau lles yn gwella'r cymhelliant i unigolion ymuno â'r farchnad lafur. Fodd bynnag, bydd yr ymateb ymddygiadol yn dibynnu ar amodau economaidd ehangach. Bwriedir i Gam 2 o raglen waith Llywodraeth Cymru i ddadansoddi effaith y diwygiadau lles geisio amcangyfrif yr ymatebion tebygol hyn gan ystyried amrywiaeth o senarios ar gyfer yr economi yng Nghymru.

5. Effeithiau economaidd ehangach

Wrth asesu graddau posibl y golled i Gymru yn deillio o'r diwygiadau lles, mae angen ystyried effeithiau ail gylch neu effeithiau lluosogi, sy'n ceisio meintoli effeithiau ychwanegol newid polisi y tu hwnt i'r effeithiau hynny y gellir eu mesur ar unwaith.

Yn yr un modd â'r dull gweithredu a ddilynwyd gan yr IFS, tybir na fydd y diwygiadau treth a budd-dal yn newid penderfyniadau aelwydydd o ran y cyflenwad llafur. Ar y sail hon, bydd y gostyngiad

³³ Ibid

mewn incwm yng Nghymru yn deillio o doriadau budd-dal yn fwy na'r 'prif' ostyngiad o ganlyniad i effeithiau ail gylch neu effeithiau lluosogi. Mae'r effaith lluosogi, er enghraifft, yn cynnwys effaith lefelau gwario is gan unigolion sy'n cael budd-daliadau ar nwyddau a gwasanaethau, a allai, yn ei dro, leihau cyflogaeth mewn busnesau yng Nghymru sy'n profi galw is. Amcangyfrifir y bydd yr effaith negyddol ar incwm aelwydydd yn fwy difrifol yng Nghymru, felly gallai'r effaith negyddol ar fusnesau yng Nghymru hefyd fod yn waeth. Byddai effaith gyffredinol y diwygiadau lles felly yn cyfateb i effaith y mesurau polisi wedi'i lluosgi â'r lluosogwr.

Mae'n anodd meintoli effeithiau lluosogi yn fanwl ond, yn fras, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellid cysylltu pob £1 o incwm a gollir â chyfanswm colled incwm i Gymru oddeutu £1–£1.50³⁴. Hynny yw, mae'r lluosogwr yn debygol o fod rhwng 1.0–1.5 (gyda'r canolbwynt o 1.25 yn darparu amcangyfrif canolog). Dylid ystyried mai tybiaeth interim yw'r dybiaeth hon tra'n aros am ddadansoddiad manylach yng Ngham 2. Mae'n bwysig nodi nad yw'r dadansoddiad cychwynnol hwn yn cynnwys ymatebion posibl o ran y cyflenwad llafur. Pe rhoddid cyfrif am yr ymatebion hyn, byddai'r effeithiau lluosogi yn llai, a gallent hyd yn oed fod yn bositif, os bydd pobl yn symud i mewn i waith. Felly, mae graddau'r effaith yn dibynnu i raddau helaeth ar ffactorau allanol fel y farchnad lafur ac amodau economaidd ehangach.

O gofio natur atchwelol y diwygiadau lles, mae'n ddefnyddiol ystyried data o'r Arolwg Costau Byw a Bwyd (2010), sy'n cyflwyno adroddiad ar wariant aelwydydd yn ôl incwm. Mae'r arolwg yn dangos bod aelwydydd yn y grŵp deigradd incwm isaf yn gwario cyfran uwch o gyfanswm eu gwariant wythnosol cyfartalog ar dai, tanwydd a phŵer (23 y cant), a bwyd a diodydd di-alcohol (15 y cant), na'r rheini yn y grŵp deigradd incwm uchaf (8 y cant yn y ddau achos). Mae hyn yn awgrymu y bydd y defnydd is sy'n debygol gan hawl wyr budd-dal yr effeithir arnynt yn cael effaith benodol ar fusnesau sy'n gysylltiedig â'r sectorau hyn yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd holl wariant aelwydydd Cymru yn digwydd yng Nghymru ac y bydd graddau'r effaith hon hefyd yn dibynnu ar hyblygrwydd y galw o ran incwm sy'n gysylltiedig â'r nwyddau a'r gwasanaethau hyn (h.y. sut y bydd y galw am nwyddau yn ymateb o ganlyniad i newid o ran incwm y bobl sy'n galw am y nwyddau hynny). Mae'n debygol y bydd llai o effaith ar drafnidiaeth,

³⁴ Cyfrifwyd yr amcangyfrifon gan ddefnyddio *Tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru 2007* (Uned Ymchwil i Economi Cymru, 2010).

a hamdden a diwylliant gan fod aelwydydd yn y grŵp deigradd incwm isaf yn gwario swm cyfrannol lai ar y nwyddau a'r gwasanaethau hyn o gymharu â'r deigradd incwm uchaf.

Mae'r dosbarthiad incwm yng Nghymru, ynghyd â dosbarthiad hawl wyr budd-dal, yn rhoi syniad o ran pa ardaloedd yng Nghymru mae'r newidiadau lles fwyaf tebygol o gael effaith andwyol arnynt. Fel crybwyllwyd uchod, ceir cydberthynas gref rhwng dosbarthiad aelwydydd incwm isel ac aelwydydd sydd hefyd yn hawlio budd-daliadau. Yn arbennig, ceir crynodiad amlwg o'r aelwydydd hyn yng Nghymoedd De Cymru ac ardaloedd canol dinas Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe.

6. Effeithiau cymdeithasol ehangach

Ymddengys fod gwaith ymchwil ar effeithiau cymdeithasol ehangach posibl diwygiadau lles a gyflwynwyd yn ddiweddar a diwygiadau lles arfaethedig yn y dyfodol yn gymharol gyfyngedig. Fodd bynnag, defnyddiwyd detholiad bach o astudiaethau ymchwil sy'n ymwneud â newidiadau a wnaed yn y gorffennol i'r system les sy'n berthnasol i'r diwygiadau lles a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth Glymblaid.

Mae'n amlwg y bydd y newidiadau polisi penodol a wnaed yn dylanwadu ar effeithiau amcangyfrifedig diwygiadau lles yn y gorffennol. Er enghraifft, ymchwiliodd astudiaeth gan Machin a Marie (2006) i'r effaith ar droseddau ers cyflwyno'r Lwfans Ceisio Gwaith i farchnad lafur y DU ym 1996, a oedd yn cynnwys cosbi pobl nad oeddent yn bodloni gofynion chwilio am swydd. Cafwyd gostyngiad hefyd o ran hyd budd-daliadau cyfrannol nad oeddent yn seiliedig ar brawf modd o 12 mis i 6 mis. Er bod yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y polisi penodol hwn, mae nodweddion cyffredinol debyg o gymharu â'r diwygiadau lles a gyhoeddwyd yn ddiweddarach yn yr ystyr y gwnaed penderfyniadau cyffredinol i lymhau a thynhau'r cyfundrefnau budd-dal drwy dorri budd-daliadau (gan arwain at ostyngiad mewn incwm) a chyflwyno cosbau. Felly, er gwaethaf y ffocws ar y diwygiad budd-dal penodol hwn, gallai'r canfyddiadau fod yn gyffredinol gymwys a pherthnasol i raglenni eraill o fudd-dal i waith. Yn arbennig, mae nodweddion tebyg amlwg o gymharu â'r gofynion o ran amodau o dan y Credyd Cynhwysol a'r cynnig i roi terfyn amser ar elfen gyfrannol y lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Dengys canfyddiadau'r gwaith ymchwil y bu cynnydd mwy o ran cyfraddau troseddu yn yr ardaloedd yn y DU lle y cafodd y broses o gyflwyno Lwfans Ceisio Gwaith yr effaith fwyaf. Yr ardaloedd hyn

hefyd oedd yr ardaloedd lle cafwyd gostyngiad yn nifer y bobl a oedd wedi'u cofrestru fel pobl ddi-waith, gyda'r unigolion hynny a oedd yn symud oddi ar y gofrestr yn dueddol o beidio â symud i mewn i waith (addysg na hyfforddiant, nac i gael budd-daliadau eraill). Wrth astudio'r gydberthynas rhwng trosedd a chosbau ar ôl cyflwyno'r Lwfans Ceisio Gwaith, mae'r gwaith ymchwil yn cadarnhau mai'r ardaloedd hynny lle cosbwyd mwy o bobl oedd yr ardaloedd hynny lle cafwyd cynnydd uwch o ran lefelau troseddu. Fel y cyfryw, ymddengys fod y canlyniadau hyn yn awgrymu bod toriadau budd-dal a chosbau o ran Lwfans Ceisio Gwaith wedi symud pobl oddi ar y system fudd-daliadau gan arwain at lai o incwm a chynnydd o ran cyfraddau troseddu.

Mae gwaith ymchwil perthnasol arall wedi ymchwilio i amseriad ac amllder taliadau lles ar lefelau troseddu. Er enghraifft, cynhaliodd Foley (2009) ddadansoddiad o batrymau troseddu mewn 12 o ddinasoedd yn yr Unol Daleithiau er mwyn gweld a oedd unrhyw gydberthynas â'r cylch taliadau lles. Mae'r canfyddiadau yn datgelu bod gweithgarwch troseddol yn cynyddu yn yr amser a oedd wedi mynd heibio ers cael taliadau lles. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd mewn troseddau â chymhelliant ariannol uniongyrchol (e.e. bwrgleriaeth a dwyn cerbydau modur) o gofio'r cymhelliant cynyddol i ategu incwm lles ag incwm troseddol. Ni welwyd patrymau o ran amser mewn cysylltiad â throseddau lle gwnaed taliadau lles yn gymharol amlach. Mae hyn yn awgrymu bod pobl sy'n cael taliadau lles yn gwario eu hincwm o ran y taliadau hynny yn gyflym ac wedyn yn ceisio ei ategu ag incwm troseddol. Yn ogystal â newid patrymau troseddu, mae'r astudiaeth hon hefyd yn awgrymu y gall taliadau lles amlach arwain at gyfraddau troseddu is o dan rai tybiaethau. Mae'r canfyddiadau hyn yn arbennig o berthnasol i Gredyd Cynhwysol o gofio y bwriedir ei dalu bob mis, gan ddisodli taliadau a wneir yn bennaf bob pythefnos. Y nod yw helpu i hwyluso'r broses o symud i mewn i waith. Fodd bynnag, fel yr awgrymwyd, mae'n bosibl y bydd y polisi hwn yn cael effaith anfwriadol ar lefelau troseddu. Fel gyda'r effeithiau economaidd ehangach, mae'n bwysig nodi y bydd unrhyw effeithiau cymdeithasol posibl ar droseddau a all ddeillio o'r diwygiadau lles yn dibynnu'n helaeth ar ymatebion ymddygiadol yn arbennig o ran y farchnad lafur.

O ran effaith bosibl diwygiadau lles y Llywodraeth Glymblaid ar iechyd, ymddengys mai prin fu'r gwaith dadansoddi a wnaed. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod y dulliau modelu a ddefnyddir gan yr IFS a DWP yn sefydlog eu natur. O ganlyniad, ni chynhwyswyd effeithiau dynamig newidiadau polisi (e.e. y cynnydd yn nifer y bobl

mewn gwaith a'r buddiannau cysylltiedig megis yr effaith ar iechyd) mewn unrhyw waith modelu. Yn ogystal ag amodau economaidd ehangach, bydd yr effaith gyffredinol ar unigolion hefyd yn dibynnu ar ba fudd-daliadau penodol y maent yn eu hawlio a'r newidiadau a wneir i bob un o'r budd-daliadau hynny.

Noda DWP mewn nifer o'u hasesiadau o effaith mewn perthynas â Bil Diwygio Lles 2011 y gallai'r polisïau lles gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd os y byddant yn annog mwy o bobl i symud mewn i waith. Byddai'r incwm y byddent yn ei ennill yn gwneud iawn am yr hyn y byddent yn ei golli mewn incwm lles o ganlyniad i doriadau budd-daliadau a chosbau. Mae DWP yn cyfeirio at dystiolaeth sy'n dangos bod gwaith yn gyffredinol o fudd i iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lles, gan gynnwys i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, ac y gall eu helpu i wella. Yn ogystal, noda DWP os bydd rhiant yn symud i mewn i waith, gan godi'r teulu allan o dlodi o bosibl a darparu gwell ffordd o fyw iddynt, noda DWP y gall hyn wella lles eu plentyn. Ar y llaw arall, mae bod allan o waith yn aml yn arwain at iechyd gwaelach yn ogystal â chanlyniadau negyddol eraill³⁵. Mae hyn yn arbennig o wir o gofio'r cysylltiadau rhwng incwm ac iechyd, gyda chyfraddau afiechyd, salwch a marwolaeth uwch hefyd yn berthnasol i'r rheini ar incwm isel o gymharu â'r rheini ar incwm uchel. Fodd bynnag, mae DWP yn awgrymu mai prin yw'r dystiolaeth o ran a fydd newid mewn incwm yn cael effaith ar iechyd³⁶. Caiff effeithiau polisïau diwygio lles ar iechyd eu hystyried yn fanylach gan DWP wrth i bob polisi gael ei ddatblygu ymhellach. Cynhelir gwaith ymchwil pellach i effeithiau cymdeithasol ehangach y diwygiadau lles fel rhan o Gam 2 o'r rhaglen waith hon.

Y camau nesaf

Mae'r dadansoddiad uchod yn ffurfio Cam 1 o'r rhaglen waith i ddadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru. Ceir gwybodaeth am gam nesaf y gwaith ymchwil hwn, sef Cam 2, yn Atodiad 1. Rhagwelir y caiff y cam hwn ei gwblhau erbyn diwedd 2012.

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru Chwefror 2012

³⁵ Abolition of concessionary Employment and Support Allowance (ESA) 'youth' National Insurance qualification conditions – Impact assessment (DWP, 2011). *Is work good for your health and well-being?* gan G Waddell ac A Burton (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2006)

³⁶ Disability Living Allowance Reform – Impact assessment (DWP, 2011). 'Determining the effect of change in income on self-rated health using regression models – ordered, linear, fixed or random?' by F I Gunasekara, K Carter, T Blakely and I Liu (2009)

Cyfeiriadau

Abolition of concessionary Employment and Support Allowance (ESA) 'youth' National Insurance qualification conditions – Impact assessment October 2011 (DWP, 2011)

Adolygiad o Wariant 2010 (Trysorlys EM, 2010)

Adolygiad Ymchwil o Effaith y Polisi o Fudd-dal i Waith ym Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf (Wavehill, 2011)

Arolwg Costau Byw a Bwyd 2010 (ONS, 2011)

Average losses for pensioner households from tax and benefit changes to be introduced between January 2011 and April 2014 (IFS, 2011)

www.ifs.org.uk/publications/5440

Child and Working-Age Poverty from 2010 to 2020 (IFS, 2011)
www.ifs.org.uk/publications/5711

'Crime and Benefit Sanctions' gan S Machin ac O Marie yn *Portuguese Economic Journal* Cyfrol 5(2), tudalennau 149–165 (Awst 2006)

Cyllideb 2011 (Trysorlys EM, 2011)

Cyllideb Mehefin 2010 (Trysorlys EM, 2010)

Datganiad Hydref 2011 (Trysorlys EM, 2011)

'Determining the effect of a change in income on self-rated health using regression models – ordered, linear, fixed or random?' gan F I Gunasekara, K Carter, T Blakely ac I Liu (2009)

Disability Living Allowance Reform – Impact assessment (DWP, 2011)

Employment and Support Allowance: Work Capability Assessment – Official Statistics for Wales, Hydref 2011 (Tabl 1) (DWP, 2011)

'From Witney to Wigan: How National Changes to Welfare Benefit Rules have a Differential Impact on Local Communities' gan A Franco (2011)

Households Below Average Income – An Analysis of the Income Distribution 1994/95 – 2009/10, May 2011 (DWP, 2011)

Household Benefit Cap – Impact assessment (DWP, 2012)

Housing Benefit equality impact assessment (DWP, 2011)

Housing Benefit – Uprating Local Housing Allowance Rates by CPI from April 2013 – Impact assessment (DWP, 2011)

Impacts of Attendance Allowance and Disability Living Allowance on Older People in Wales (LE Wales, 2011)

Impacts of DLA on working age people in Wales (LE Wales, 2011)

Impacts of Housing Benefit Proposals: Changes to the Local Housing Allowance to be introduced in 2011–12 (DWP, 2010)

Is work good for your health and well-being? gan G Waddell ac A Burton (DWP, 2006)

Small Area Income Estimates, 2007/08 (Swyddfa Ystadegol Gwladol, 2011)

Tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru 2007 (Uned Ymchwil i Economi Cymru, 2010)

The Impact of Austerity Measures on Households with Children (IFS, 2012)

www.ifs.org.uk/publications/5973

The impact of tax and benefit reforms by sex: some simple analysis (IFS, 2011)

www.ifs.org.uk/publications/5610

The Impact of Tax and Benefit Reforms to be Introduced between 2010–11 and 2014–15 in Northern Ireland (IFS, 2010)

www.ifs.org.uk/publications/5369

Time Limiting Contributory element of Employment and Support Allowance – Impact assessment (DWP, 2011)

Under-occupation of social housing – Impact assessment (DWP, 2011)

‘Welfare Payments and Crime’ – Papur Gwaith NBER gan CF Foley

Atodiad 1: Rhaglen waith i ddadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru

Nodau

Bydd y rhaglen waith yn ymdrin â dau faes dadansoddi o bwys:

- y cyntaf yw meithrin gwell dealltwriaeth o effaith gronol yr holl newidiadau i'r system lles a budd-daliadau ar unigolion ac aelwydydd yng Nghymru. Bydd angen i'r broses hon ystyried nifer o wahanol senarios ar gyfer pobl ag amgylchiadau gwahanol sy'n cael gwahanol fudd-daliadau
- yr ail yw amcangyfrif effaith gweinyddu'r rhaglenni cyfredol ar sefydliadau a'r effaith bosibl ar y broses o ddarparu gwasanaethau datganoledig yng Nghymru.

Dull gweithredu

Mae amcangyfrif effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn dasg anodd oherwydd cymhlethdod y system gyfredol a'r amrywiaeth o ymatebion tebygol gan unigolion ac aelwydydd yng Nghymru yn dilyn y newidiadau. Mae hyn yn arbennig o anodd ei rag-weld cyn i'r diwygiadau gael eu rhoi ar waith. Oherwydd hyn, rydym yn dilyn dull gweithredu tri cham. Fel rhan o Gam 1, dadansoddwyd y dystiolaeth sy'n bodoli eisoes ar yr effeithiau cronol gydag ail gam i gomisiynu estyniadau i'r sail dystiolaeth hon sy'n bodoli eisoes er mwyn ymchwilio i'r effaith yng Nghymru yn fanylach. Wedyn cynigir trydydd cam sy'n ceisio ymchwilio i effaith bosibl diwygiadau trawsbynciol penodol fel y Credyd Cynhwysol, os ystyrir bydd angen gwneud hynny.

Cam 1

Nod cam cyntaf yr asesiad o effaith fu dadansoddi'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes o'r effaith debygol ar unigolion ac aelwydydd yng Nghymru drwy ystyried y mesurau diwygio lles fel pecyn.

Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys:

1. Crynodeb o ddatganiadau y polisi diwygio lles (**Atodiad 2**).
2. Amcangyfrif o nifer yr unigolion y bydd y diwygiadau yn effeithio arnynt yng Nghymru.
3. Asesiad o'r effaith ariannol ddisgwyliedig:
 - a) cymhariaeth o'r effaith amcangyfrifedig yng Nghymru o gymharu â'r DU yn gyffredinol a gwledydd a rhanbarthau eraill y DU

- b) asesiad o'r effeithiau gofodol tebygol yng Nghymru
 - c) dadansoddiad o effeithiau'r prif ddiwygiadau yn ôl nodweddion yr unigolyn a/neu'r aelwyd yng Nghymru (gan gynnwys grŵp incwm, teuluoedd â phlant, rhieni unigol, oedolion o oedran gweithio heb blant, pensiynwyr ac aelwydydd heb waith)
 - d) dadansoddiad o'r effeithiau ar gymhellion i weithio.
4. Asesiad o'r effaith ar dlodi, gan gynnwys tlodi plant.
 5. Dadansoddiad o'r effeithiau economaidd ehangach (e.e effeithiau lluosydd gostyngiad mewn incwm ar economïau lleol).
 6. Asesiad o'r effeithiau cymdeithasol ehangach, megis yr effaith bosibl ar droseddau ac iechyd yng Nghymru.

Roedd Cam 1 hefyd yn cynnwys asesiad o'r effeithiau gweinyddol mae'r diwygiadau lles yn debygol o'u cael ar asiantau cyflenwi yng Nghymru.

Cam 2

Nid yw llawer o'r gwaith dadansoddi a gyhoeddwyd hyd yn hyn yn cynnwys amcangyfrifon o'r ymateb ymddygiadol tebygol yn dilyn y diwygiadau. Mae'n bwysig deall yr ymatebion ymddygiadol hyn er mwyn amcangyfrif yr effaith debygol yn y tymor canol yng Nghymru. Er enghraifft, mae Llywodraeth y DU yn disgwyl y bydd nifer o'r diwygiadau lles yn gwella'r cymhelliant i unigolion ymuno â'r farchnad lafur. Fodd bynnag, bydd yr ymateb ymddygiadol tebygol yn dibynnu ar amodau economaidd ehangach. Bydd Cam 2 yn ceisio amcangyfrif yr ymatebion ymddygiadol tebygol gan gynnwys sut y gall yr ymatebion hyn newid gan ddibynnu ar amrywiaeth o senarios ar gyfer yr economi yng Nghymru.

Mae'r dadansoddiad hwn yn debygol o gynnwys y canlynol.

1. Tystiolaeth o'r ffordd mae unigolion/aelwydydd yn debygol o ymateb yn dilyn y diwygiadau.
2. Sut y mae'r diwygiadau yn debygol o newid y galw am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
3. Sut y mae'r diwygiadau yn debygol o newid patrymau gwario ac ystyriaeth bellach i'r effeithiau economaidd ehangach.

4. Asesiad pellach o'r effeithiau cymdeithasol ehangach megis yr effaith bosibl ar droseddau ac iechyd yng Nghymru.
5. Sut y gall effaith y diwygiadau lles newid yn dibynnu ar amrywiaeth o senarios ar gyfer yr economi yng Nghymru.

Bydd Cam 2 hefyd yn ceisio amcangyfrif effaith gronnol y prif ddiwygiadau lles ar eu pennau eu hunain (h.y. heb gynnwys effeithiau posibl y newidiadau treth) ar incwm aelwydydd yng Nghymru. Rhagwelir y caiff Cam 2 ei gwblhau tua diwedd 2012.

Cam 3

Os ystyrir bod angen gwneud hynny, gallai'r trydydd cam gynnwys amcangyfrif effaith diwygiadau lles penodol sy'n debygol o gael effeithiau trawsbynciol penodol. Byddai Cam 3 yn cynnwys llawer o'r gwaith dadansoddi a wnaed yn ystod Camau 1 a 2 ond ar gyfer unrhyw ddiwygiad penodol lle ystyrir bod angen tystiolaeth ychwanegol.

Atodiad 2: Crynodeb o ddatganiadau y polisi diwygio lles

Penderfyniadau polisi Cyllideb Mehefin 2010, £ miliwn

	2010–11	2011–12	2012–13	2013–14	2014–15
Mesurau lles	385	2,010	4,710	8,150	11,040
Budd-daliadau, credydau treth a phensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus: newid i ddull mynegeo CPI o 2011–12	0	1,170	2,240	3,900	5,840
Lwfans Byw i'r Anabl: porth diwygio o 2013–14	0	0	0	360	1,075
Budd-daliadau rhieni unigol: ehangu amodau i'r rheini â phlant 5 oed a throsodd o fis Hydref 2011	0	0	50	150	180
Grant lechyd yn ystod Beichiogrwydd: diddymu	40	150	150	150	150
Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn: yn berthnasol i'r plentyn cyntaf yn unig o 2011–12	0	75	75	75	75
Cymhorthdal ar gyfer Llog Morgais: pennu taliadau yn unol â'r gyfradd morgais gyfartalog o fis Hydref 2010	15	-75	-10	40	65
Porth Cynilo: peidio â'i gyflwyno ym mis Gorffennaf 2010	10	0	75	110	115
Diwygiadau Budd-dâl Tai					
Lwfans Tai Lleol: pennu ar y degfed ganradd ar hugain o renti lleol o 2011–12	0	65	365	415	425
Didyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion: gwrthdroi'r rhewiadau blaenorol ar uwchraddio a chynnal cyswllt â phrisiau o 2011–12	0	125	225	320	340
Sector cymdeithasol: rhoi terfyn ar hawliadau oedran gweithio i adlewyrchu maint y teulu o 2013–14	0	0	0	490	490
Newid i ddull mynegeo CPI ar gyfer y Lwfans Tai Lleol o 2013–14	0	0	0	300	390
Lleihau dyfarniadau i 90% ar ôl 12 mis i hawl wyr Lwfans Ceisio Gwaith	0	0	0	100	110
Ystafell wely ychwanegol i ofalwyr o 2011–12	0	-15	-15	-15	-15
Lwfans Tai Lleol: terfynau ar yr uchafswm cyfraddau ar gyfer pob maint o eiddo, gyda therfyn 4 ystafell wely o 2011–12	0	55	65	70	65

Taliadau Tai Dewisol Ychwanegol o 2011–12	0	-10	-40	-40	-40
Diwygiadau Credyd Treth					
Trothwy ail incwm ar gyfer credydau treth: lleihau i £40,000 o 2011–12	0	140	145	155	145
Cyfraddau tynnu yn ôl cyntaf ac ail gyfraddau tynnu yn ôl: cynyddu i 41% o 2011–12	0	640	710	730	765
Credyd Treth Plant: tapro'r elfen deuluol yn union ar ôl yr elfen plant o 2012–13	0	0	510	515	480
Credyd Treth Plant: diddymu'r elfen babanod o 2011–12	0	295	275	270	275
Credyd Treth Gwaith: diddymu'r elfen 50 a throsodd o 2012–13	0	0	35	40	40
Credyd Treth Plant: gwrthdroi'r tâl atodol ar gyfer plant un a dwy oed o 2012–13	0	0	180	180	180
Lleihau'r anwybyddiad incwm o £25,000 i £10,000 am ddwy flynedd yn 2011–12 wedyn i £5,000 o 2013–14	0	105	140	340	420
Cyflwyno anwybyddiad incwm o £2,500 ar gyfer gostyngiadau incwm o 2012–13	0	0	550	560	585
Ceisiadau newydd a newid mewn amgylchiadau: lleihau'r cyfnod ôl-ddyddio o 3 mis i 1 mis o 2012–13	0	0	315	320	330
Credyd Treth Plant: cynyddu'r elfen plant £150 yn 2011–12 a £60 yn 2012–13 uwchlaw'r mynegai	0	-1,200	-1,845	-1,930	-1,995
Budd-dal Plant: rhewi cyfraddau am dair blynedd o 2011–12	0	365	695	940	975
Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth: cyflwyno gwarant driphlyg o 2011–12	0	0	-195	-420	-450
Gwarant isafswm incwm Credyd Pensiwn: cyfateb i'r cynnydd arian parod ym Mhensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn 2011–12	0	-415	-535	-535	-535
Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant: diddymu cyfraniadau'r Llywodraeth yn raddol o 2010–11	320	540	550	560	560

Penderfyniadau polisi Gwariant a Reolir yn Flynyddol Adolygiad o Wariant 2010, £ miliwn

	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
Mesurau lles	320	2,555	5,990	7,040
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol: terfyn amser o flwyddyn i'r rheini yn y Grŵp Gweithgarwch sy'n seiliedig ar Waith	0	1,025	1,530	2,010
Budd-dâl Tai: cynyddu'r terfyn oedran ar gyfer y gyfradd ystafell a rennir o 25 i 35	0	130	225	215
Pennu terfyn ar gyfer cyfanswm taliadau budd-dal aelwydydd ar sail cyflog clir cyfartalog aelwydydd sy'n gweithio	0	0	225	270
Lwfans Byw i'r Anabl: diddymu'r elfen symudedd ar gyfer hawlwyr mewn gofal preswyl	0	60	130	135
Credyd Cynilion: rhewi'r uchafswm dyfarniad am bedair blynedd o 2011-12	165	215	260	330
Cymhorthdal ar gyfer Llog Morgais: ehangu'r newidiadau dros dro i'r cyfnod aros a'r terfyn cyfalaf tan fis Ionawr 2012	-70	-20	0	0
Taliadau Tywydd Oer: cynyddu'r gyfradd yn barhaol i £25 o fis Tachwedd 2010	-50	-50	-50	-50
Budd-dal Treth Gyngor: gostyngiad o 10% mewn gwariant a threfniadau lleoli	0	0	485	490
Budd-dal Plant: peidio â'i dalu i deuluoedd â threthdalwr ar y gyfradd uchaf o fis Ionawr 2013	0	590	2,420	2,500
Credyd Treth Gwaith: rhewi'r elfen sylfaenol a'r elfen 30 awr am dair blynedd o 2011-12	195	415	575	625
Credyd Treth Gwaith: lleihau'r costau sy'n daladwy drwy'r elfen gofal plant o 80% i 70% gan ddychwelyd i gyfradd 2006	270	320	350	385
Credyd Treth Plant: cynyddu'r elfen plant £30 yn 2011 a £50 yn 2012	-190	-510	-545	-560
Credyd Treth Gwaith: cynyddu'r gofyniad o ran oriau gwaith i gyplau â phlant i 24 awr	0	380	385	390
Credydau Treth Plant a Gwaith: defnyddio gwybodaeth amser real	0	0	0	300

Penderfyniadau polisi Cyllideb 2011, £ miliwn

	2011–12	2012–13	2013–14	2014–15
Mesurau lles	30	-70	-50	-35
Budd-dâl Tai: peidio â chyflwyno gostyngiadau i geiswyr gwaith hirdymor	0	0	-105	-115
Lwfans Byw i'r Anabl: elfennau symudedd i hawl wyr mewn gofal preswyl	0	-75	0	0
Lwfans Tai Lleol: diogelwch trosiannol i hawl wyr cyfredol	30	-30	0	0
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth leuenctid: diddymu'r consesiwn Yswiriant Gwladol	0	10	10	15
Twyll budd-dal: cosbau ac adennill dyledion	0	25	45	65

Penderfyniadau polisi Datganiad Hydref 2011, £ miliwn

	2011–12	2012–13	2013–14	2014–15	2015–16	2016–17
Mesurau lles	0	1,240	1,245	1,295	1,270	1,275
Credyd Treth Plant: diddymu gorfynegeio	0	975	955	1,020	995	995
Credyd Treth Gwaith: rhewi	0	265	290	275	275	280